Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD IAU, 8 MAI 2014 | THURSDAY, 8 MAY 2014 |
| am 10.30 o'r gloch | at 10.30 am |

**R H A G L E N**

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 27 Chwefror, 2014
- 27 Mawrth, 2014 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

4. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

5. **SWYDDFEYDD POST CAERGYBI A LLANGEFNI**

I dderbyn cyflwyniad gan Non Tudur Williams, Uwch-Reolwr Rhanddeiliaid – Yn unol â phenderfyniad y Cyngor Sir ar 27 Chwefror, 2014, gwahoddwyd uwch gynrychiolwyr o Swyddfa'r Post i annerch y Cyngor mewn perthynas â'u cynlluniau ar gyfer rhyddfreinio'r Swyddfeydd Post Brenhinol yng Nghaergybi a Llangefni.

Neilltuir cyfnod o gwestiynau ac atebion i'r Aelodau.

6. **CYNLLUN GWELLA 2014-15 – DARPARIAETH FLYNYDDOL**

(a) Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Ebrill, 2014.

(b) Cyflwyno sylwadau'r Pwyllgor Gwaith ar y Cynllun Gwella.

**PENDERFYNWYD derbyn y Ddogfen Ddarparu Flynyddol am 2014/15 ac argymell ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 8 Mai, 2014.**

7. **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd. **– ADRODDIAD HWYR**

8. **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH I AELODAU 2014-15**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â pharagraff 4.1.16 y Cyfansoddiad. **– ADRODDIAD HWYR**

## 10. PWYLLGOR ARCHWILIO – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013-14

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2013-14

Cyflwyno adroddiad gan Mr Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2013-14

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2013-14

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 14. CYNLLUN DATBLYGU HYFFORDDIANT I AELODAU – DATBLYGU HYFFORDDIANT I AELODAU 2014-15

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd.

## 15. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Ã RHEOL 4.1.12.2 Y CYFANSODDIAD

Cwestiwn Cynghorydd Jeff Evans:-

Hoffwn ofyn y cwestiwn isod dan reol i Cynghorydd R Dew, Aelod Portffolio Eiddo:-

*"Faint o fusnesau/sefydliadau sydd ar hyn o bryd yn cael £500 am ddarparu cyfleusterau toiled. Lle mae'r rhain a beth yw cyfanswm cost y ddarpariaeth?"*

## 16. RHYBYDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOLAU 4.1.13.1 AC 4.1.17.1 Y CYFANSODDIAD

Cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd R Meirion Jones yn unol â Rheol 4.1.13.1 ac 4.1.17.1 o'r Cyfansoddiad. Mae'r Rhybudd wedi'i arwyddo gan y Cynghorwyr Bob Parry, OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts, Carwyn Jones, Llinos Medi Huws, John W Griffith, T Lloyd Hughes, A W Mummery, Ann Griffith ac Vaughan Hughes.

- Ail-ystyried amseroedd cyfarfodydd y Cyngor Sir, Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Lled-farnwrol a phob Pwyllgor neu Is-Bwyllgor arall o'r Cyngor Sir a rhoi sylw anghenion cydraddoldeb, cyfartalwch ac amrywiaeth.

- Trosglwyddo ystyriaeth o amseroedd cyfarfodydd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

I roi ystyriaeth i'r uchod.

## 17. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i gau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth eithriedig fel â ddiffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

## 18. CAIS GAN GYNGHORYDD I YMESTYN EI GYFNOD O ABSENOLDEB SALWCH

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Monitro ar gynnwys y cais.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2014

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, A M Jones, H E Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Cyfarwyddwr Cymuned
Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adain 151
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro
Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Trawsnewid) (BD)
Cyfrifydd (BW)
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Lewis Davies, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, J A Roberts ac Dafydd Rhys Thomas

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Lis Perkins, Stephen Roe a Tony McNicholl o Gymdeithas Masnach Deg Ynys Môn, Duncan Gates o'r Sefydliad Masnach Deg yn Llundain a Juliet Arku-Mensah o Volta River Estates Cyf, Ghana.

Anerchwyd y Cyngor gan Mr Stephen Roe, Ysgrifenydd Partneriaeth Masnach Deg Ynys Môn ynghylch y cais llwyddiannus i adnewyddu statws Masnach Deg Ynys Môn am ddwy flynedd tan 2015 ac i nodi bod Cymru'n dathlu pum mlynedd fel y Genedl Fasnach Deg gyntaf yn y byd eleni.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Daniel Hurford, Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethiant) yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gyflwynodd i'r Cyngor 'Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau'.

**1. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir:-

- 5 Rhagfyr, 2013
- 27 Ionawr, 2014 (Arbennig)

## 2. DATGAN DIDDORDEB

Gwnaed datganiad o ddiddordeb yn Eitem 14 y cofnodion hyn (Datganiad Polisi Tâl) gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynghyd â'r Penaethiaid Swyddogaeth ar gyfer Adnoddau a Busnes y Cyngor. Nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidlais ar yr eitem. (*Fel y nodir yn yr adroddiad*)

Gwnaed datganiad o ddiddordeb yn Eitem 11(2) gan y Cynghorydd Jim Evans (fel unigolyn sy'n gweithio i'r Swyddfa Bost) ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arni.

## 3. CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH NEU BENNAETH Y GWASANAETH TALEDIG

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Y Fali ar eu llwyddiant gyda'r gân a recordiwyd ganddynt ar gyfer eu Sioe Nadolig. Gwelwyd y fideo a wnaethpwyd ohonynt gan nifer fawr o bobl o amgylch y byd ar "YouTube" ac roedd yn siŵr fod y plant i gyd wrth eu boddau o fod wedi cymryd rhan mewn rhywbeth mor arbennig a bythgofiadwy. Diolchodd y Cadeirydd i'w hathro Mr Iolo Evans am ei waith yn eu cynorthwyo gyda'r recordiad a llongyfarchodd nhw ar eu llwyddiant gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at glywed y gân nesaf.

Cyn y Nadolig, cafodd disgyblion a staff Ysgol Y Graig y fraint a'r pleser o fod yn rhan o gystadleuaeth 'Carol yr Ŵyl' a gynhelir yn flynyddol gan y rhaglen deledu 'Pnawn Da' ar S4C. Nod y gystadleuaeth yw annog staff a disgyblion ysgolion cynradd Cymru i gyfansoddi a recordio carolau newydd sbon. Manteisiodd yr ysgol ar y cyfle yma gan fynd ati ym mis Tachwedd i greu recordiad o'r garol newydd 'Daeth y Dolig/ Christmas is Here o waith Miss Catrin Angharad Roberts, aelod o'r staff. Rob Nicholls a Sioned James oedd y beirniaid a dderbyniodd yr orchwyl o bennu rhestr fer o 10 carol o blith y 35 ymgais.

Dewiswyd carol Ysgol Y Graig yn un o'r deg uchaf. Daeth criw teledu i'r ysgol i ffilmio a recordio'r garol; profiad amhrisiadwy, bythgofiadwy i blant côr yr adran iau a'r staff. Darlledwyd carol Ysgol Y Graig ynghyd â'r naw carol arall ar y rhestr fer tros gyfnod o bythefnos cyn y Nadolig a chyhoeddwyd ar ddydd Gwener olaf y tymor mai carol Ysgol Y Graig oedd yn fuddugol.

Ni ellir pwysleisio cymaint oedd balchder a chynnwrf y plant ar ddiwrnod y cyhoeddi, ac roedd y cwbl yn benllanw a chlo perffaith i flwyddyn lewyrchus. Hoffai staff yr ysgol ddiolch o galon i bawb am eu llongyfarchiadau, a phleser oedd cael yr anrhydedd o gynrychioli Môn mewn cystadleuaeth genedlaethol.

Llongyfarchiadau am lwyddiant ysgubol Band Ieuenctid Biwmares ym Mhencampwriaeth Bandiau Ieuenctid Prydain 2014 a gynhaliwyd yn Blackpool yn ddiweddar. 'Roedd disgwyl i bob band gynnig rhaglen amrywiol o hanner awr. Gwelwyd 11 band ieuenctid (dan 18 oed) yn cystadlu. Pan gyhoeddwyd y canlyniadau dyma beth a enillwyd:-

Tlws a Gwobr Pencampwyr Bandiau Ieuenctid Prydain 2014
Tlws Adran Ewffoniwm Gorau'r Bencampwriaeth
Tlws Cornedydd Soprano Gorau'r Bencampwriaeth
Tlws am y dewis o Raglen Gerdd Orau yn y Bencampwriaeth
Tlws Unawdydd Gorau yn y Bencampwriaeth (Pippa Scourse)
Tlws Arweinydd Gorau'r Gystadleuaeth - (Gwyn Evans)

Dyma'n sicr achlysur i ddathlu a chadw mewn cof griw o bobl ifanc galluog, gweithgar sydd yn cael eu hyfforddi gan griw o bobl sy'n barod i roi o'u hamser.

Dywedodd y cadeuirydd y byddai, nos yfory, yn mynychu perfformiad gan Alleni Môn o'r Sioe Gerdd 'Y Fordaith Fawr' yng Nghanolfan Hamdden Biwmares.

Grŵp Cymunedol sy'n rhoi blas ar bob agwedd o waith Theatr i blant a phobl ifanc o bob rhan o Ynys Môn yw Alleni. Fe'i sefydlwyd yn Awst 2012, ac eleni maent wedi bod yn ddigon ffodus i allu gweithio o dan gyfarwyddyd Tim Baker ac Emyr John o Theatr Clwyd, yn ogystal â'r tîm arferol o diwtoriaid - Helen Barton o Gaergybi a Nia Efans o Dalwrn sy'n eu dysgu'n wythnosol.

Maer' sioe 'Y Fordaith Fawr' yn mynd â ni'n ôl gan mlynedd i ddilyn hanes Mari a Tomos, gan ein tywys ar siwrne o fywyd cefn gwlad Cymru i erchylltra'r wyrcws ac ymlaen ar fordaith llawn gobaith i'r Amerig.

Ar nodyn trist, ar ddydd Sadwrn, Chwefror 1 bu farw'r cyn-aelod William Emyr Jones, Gaerwen, a fu'n aelod o'r Cyngor Sir am dymor rhwng 1999 a 2004. Cofiwn am Emyr am ei waith dros etholaeth Llanfihangel Esceifiog ac, wrth gwrs, am ei gyfraniad dros y blynyddoedd i'r maes amaethyddol.Cydymdeimlwyd â'i briod Olwen a'r teulu yn eu colled.

Cydymdeimlwyd â'r cyn-Aelod Cynulliad a chyn-Arweinydd Plaid Cymru, Mr Ieuan Wyn Jones, yn ei brofedigaeth drist o golli ei briod, Eirian Llwyd. Yn wreiddiol o Brion ger Dinbych, bu'n gweithio i hybu lle merched mewn gwleidyddiaeth yn yr 80au, gan sicrhau lle amlycach i ferched ym mhrif bwyllgorau Plaid Cymru. Hi hefyd oedd yn gyfrifol am sefydlu Cangen y Rhyl o Gymorth i Fenywod yn y 1970au a 1980au. Ond, ar ôl newid gyrfa, fe sefydlodd gwmni Y Lle Print Gwreiddiol a fu'n dod â phrintiau gwreiddiol nifer o artistiaid blaenllaw Cymru i sylw cynulleidfa ehangach. Anfonwyd cydymdeimlad dwysaf i Ieuan, i'r plant Gerallt, Gwenllian ac Owain a'r teulu oll yn eu colled enfawr o golli gwraig, mam a nain annwyl.

Esynnwyd cydymdeimlad â'r Cynghorydd T Victor Hughes a'i wraig Margaret, sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Ar y llaw arall, maent hefyd wedi cael newyddion da o fod yn nain a thaid eto.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw aelod o'r Cyngor neu staff sydd wedi colli perthynas, Safodd Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

## 4. COFNODION ER GWYBODAETH - BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o Fwrdd Gwella a Chynaliadwyedd Ynys Môn a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2013.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion.**

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 6.1 Y STRATEGAETH AR GYFER Y GYLLIDEB TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, Y DRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS 2014-15

Cyflwynwyd gan y Cynghorydd H Eifion Jones, yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, gynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y strategaeth cyllideb refeniw tymor canol, y cynllun cyfalaf dros dro a chyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2014/15.

Diolchodd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'i staff am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb dan amgylchiadau anodd. Diolchodd i'r Prif Swyddogion a'r Grwpiau Gwleidyddol a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her a hefyd i'r Aelod Portffolio Cysgodol, y Cynghorydd John Griffith am ei gefnogaeth. Byddai'r her ar gyfer y flwyddyn nesaf hyd yn oed yn fwy a bwriedir cychwyn gwaith ar y gyllideb a'r broses ymgynghori yn llawer cynt eleni nag a ddigwyddodd y llynedd.

Adroddwyd – Bod cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllideb 2014-15 i'w gweld fel a ganlyn:-

- *Tabl A – Strategaeth Cyllideb Refeniw y Tymor Canol*
- *Tabl B – Cyllideb Refeniw 2014/15 a'r newid o 2013/14*
- *Tabl C – Cyllideb Gyfalaf 2014/15*
- *Tabl CH – Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys*

Roedd adroddiad y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys y manylion isod mewn perthynas â'r Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol:-

- os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol, a yw'r gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r strategaeth honno, a manylion am unrhyw wahaniaethau;
- y Dreth Gyngor arfaethedig am y flwyddyn;
- trosglwyddiadau arfaethedig i'r cronfeydd wrth gefn ac ohonynt;
- crynodeb o'r gwariant arfaethedig fesul gwasanaeth;
- manylion am newidiadau sylweddol i gyflenwi gwasanaethau oherwydd y gyllideb;
- i ba raddau y mae'r cynigion yn cymryd adroddiadau Pwyllgorau i ystyriaeth;
- i ba raddau mae'r cynigion yn cymryd i ystyriaeth y gwaith ymgynghori a wnaed;
- manylion am wahaniaethau sylweddol eraill rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol;

- cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer darpariaethau trosglwyddo arian yn ystod y flwyddyn;
- cynigion ar gyfer benthyca;
- unrhyw faterion statudol eraill i'w penderfynu gan y Cyngor llawn.

Diolchodd y Cynghorydd John Griffith, yr Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Cyllid i'r Cynghorydd H. Eifion Jones a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'i thîm am eu cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith o baratoi'r gyllideb. Roedd hon wedi bod yn gyllideb anodd iawn o gofio'r holl oblygiadau i'r Adrannau, staff, gwasanaethau a threthdalwyr. Roedd toriad o 5% i'r gyllideb yn cyfateb i oddeutu £7.5m yn llai i'w wario ar wasanaethau yn y flwyddyn i ddod.

Er ei fod yn cefnogi'r gyllideb, roedd ganddo rai pryderon oherwydd nifer o gyfeiriadau mewn adroddiadau blaenorol i risgiau a allai amharu ar y gyllideb arfaethedig. Er enghraifft, nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai rhai o'r cynigion arbedion yn cychwyn ar 1 Ebrill a byddai hynny'n golygu y byddai pwysau ar unwaith i gadw o fewn y gyllideb. Roedd yn teimlo ei bod yn hollbwysig i'r Cyngor baratoi ar gyfer cyllideb 2015-16 mewn da bryd ac y dylai'r cyfnod ymgynghori gychwyn yn llawer cynt nag yn y gorffennol.

Cyfeiriodd at y materion isod a oedd yn destun pryder iddo o fewn y gyllideb:-

- cyflwr y rhwydwaith ffyrdd ar yr Ynys, yn arbennig felly mewn ardaloedd gwledig;
- bwriad i godi ffioedd parcio a phrisiau tocynnau tymhorol a fyddai'n cael effaith ar yr henoed ac ar fusnesau;
- toriadau yn y gwasanaethau bws a fyddai'n cael effaith ar y rhannau hynny o'r gymuned nad oeddent yn gallu fforddio car;
- yr angen i barhau i gyllido camerâu goruchwylio oherwydd eu bod yn rhoi tawelwch meddwl i drigolion a phobl fusnes a'u bod yn rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- yn falch o glywed na fyddai'r cynnig i ostwng yr oed mynediad i ysgolion yn cael ei weithredu ym mis Medi ac y byddai'r AALl yn ymgynghori ymhellach ar ei gynlluniau tymor hir yn y cyswllt hwn;
- yr angen i fenthyca llai a gostwng y costau llog i'r Awdurdod o ganlyniad.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol am ei gymorth yn paratoi'r gyllideb. Byddai penderfyniadau yn anoddach byth yn y flwyddyn nesaf ac i'r perwyl hwn roedd dyddiadau eisoes wedi eu cynnig yn betrus ar gyfer cychwyn trafodaethau ar gyllideb 2015-16. Gobeithir gallu cychwyn ar y cyfnod o ymgynghori ym mis Hydref a fyddai'n rhoi digon o amser i sgriwtineiddio cynigion ar gyfer y gyllideb.

**6.2 Y STRATEGAETH AR GYFER Y GYLLIDEB TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, Y DRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS 2014-15 – MATERION STATUDOL**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn delio gyda materion statudol mewn perthynas â'r gyllideb.

Adroddwyd – Fel y gallai fabwysiadu ei gyllideb ar gyfer 2014-15 a phenderfynu ar lefel y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn, roedd raid i'r Cyngor Sir fabwysiadu penderfyniad ffurfiol a oedd yn delio mewn peth manylder â'r holl faterion cysylltiedig. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi argymell cynnydd arfaethedig o 4.5% yn y Dreth Gyngor a oedd yn cyfateb i £981.41 i eiddo Band D (codiad o £0.81c yr wythnos).

Wrth iddo roi sylw i gyllideb arfaethedig y Pwyllgor Gwaith, dylai'r Cyngor hefyd gymryd i ystyriaeth yr adroddiad gan y Swyddog Adran 151 oherwydd ei fod yn delio gyda materion statudol a materion eraill yr oedd rhaid rhoi sylw iddynt i gwblhau'r cyngor ar y gyllideb. Bwriad y penderfyniad ar y gyllideb ddrafft oedd gweithredu cynigion y Pwyllgor Gwaith a chymryd y cyngor hwn i ystyriaeth.

Roedd yr adroddiad i'r Cyngor heddiw yn delio gyda Chadernid yr Amcangyfrifon (Para 2), Digonolrwydd y Cronfeydd Wrth Gefn (Para 3), Cyflawni'r Gyllideb (Para 4), Y Côd Darbodus a Rheoli Trysorlys (Para 5) a'r ardollau ffurfiol (Para 6).

Mewn perthynas â'r Strategaeth Gyllidebol, rhagamcanion economaidd a chadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn, nodwyd mai argymhelliad y Swyddog Adran 151 oedd na ddylai'r cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer 2014/15 fod yn is na 4.5% ac na ddylai'r balansau cyffredinol fod yn is na £5m fel targed.

Roedd y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2014-15 fel y cafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith (fel y'i diwygiwyd) wedi ei chynnwys eleni yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn a chynigiwyd ac eiliwyd y dylid derbyn y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r dogfennau cysylltiedig ar gyfer 2014-15.

## 6.3 Y STRATEGAETH AR GYFER Y GYLLIDEB TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, Y DRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS 2014-15 – PENDERFYNIAD FFURFIOL

Ystyriwyd – Y penderfyniad ffurfiol fel oedd wedi ei gynnwys yn adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

Ar ôl rhoi sylw i'r papurau fel un pecyn a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw, cymerwyd pleidlais ar y mater a chymeradwywyd y gyllideb derfynol a gynigiwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2014-15.

**PENDERFYNIAD DRAFFT Y DRETH GYNGOR**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn Nhabl A, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cyllideb refeniw 2014/15 fel y gwelir honno yn Nhabl B.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cynllun a chyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn Nhabl C.

**(ch)** Ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Nhabl B er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2014/15, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:

**(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Nhabl B yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i ddyrannu symiau o'r arian wrth gefn heb ei ddyrannu a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant unwaith-ac-am-byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2014/15 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i ryddhau hyd at £500k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017, dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pwerau a ganlyn:

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw blynyddoedd y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Nhabl C ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu'r dangosyddion pwyllog sy'n amcangyfrifon am 2014/15 ymlaen fel sy'n ymddangos yn Nhabl Ch gan gadarnhau'r terfynau ar fenthyca a buddsoddi sydd wedi eu nodi yn eitemau 10, 11 a 14 i 17 yn y tabl.

**(ff)** Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn.

**(g)** Mabwysiadu fersiwn diwygiedig Côd Ymarfer CIPFA 2011 ar Reoli Trysorlys.

**(ng)** Cadarnhau y bydd eitemau 1 (b) i (g) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2014/15 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:

Dosbarth Penodedig A — Dim Disgownt
Dosbarth Penodedig B — Dim Disgownt

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2014/15, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n briodol i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig C — Dim Disgownt

**4.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin y costau'r â'r Cyngor iddynt yn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw gais neu gais arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**5.** Y dylid nodi i'r Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2013 bennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd da n Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

**a)** 30,070.64 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, yn sail y Dreth Gyngor am y flwyddyn.

**b) Rhan o Ardal y Cyngor**

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,460.08 |
| Biwmares | 1,048.24 |
| Caergybi | 3,762.56 |
| Llangefni | 1,898.57 |
| Porthaethwy | 1,398.36 |
| Llanddaniel-fab | 363.25 |
| Llanddona | 361.20 |
| Cwm Cadnant | 1,124.69 |
| Llanfairpwllgwyngyll | 1,284.66 |
| Llanfihangel Esceifiog | 660.48 |
| Bodorgan | 432.28 |
| Llangoed | 617.47 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 596.62 |
| Llanidan | 411.33 |
| Rhosyr | 959.24 |
| Penmynydd | 231.78 |
| Pentraeth | 543.73 |
| Moelfre | 604.42 |
| Llanbadrig | 646.16 |
| Llanddyfnan | 486.26 |
| Llaneilian | 542.85 |
| Llannerchymedd | 498.04 |
| Llaneugrad | 176.50 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,759.28 |
| Cylch y Garn | 398.93 |
| Mechell | 527.92 |
| Rhosybol | 458.98 |
| Aberffraw | 282.97 |
| Bodedern | 406.47 |
| Bodffordd | 411.53 |
| Trearddur | 1,210.53 |
| Tref Alaw | 249.63 |
| Llanfachraeth | 222.83 |
| Llanfaelog | 1,204.40 |
| Llanfaethlu | 270.30 |
| Llanfair-Yn-Neubwll | 553.62 |
| Y Fali | 966.04 |
| Bryngwran | 346.72 |
| Rhoscolyn | 337.94 |
| Trewalchmai | 353.78 |

sef y symiau a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, yn symiau sail y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**6.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

**a)** £184,546,900 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £56,877,142 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) ac (c) y Ddeddf.

**c)** £127,669,758 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 6(a) uchod a chyfanswm 6(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £97,158,202 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i gronfa'r cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £1,014.66 sef y swm yn 6(c) uchod llai'r swm yn 6(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £999,930 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £981.41 sef y swm yn 6(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 6(dd) uchod â'r swm yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

| f) | Rhan o Ardal y Cyngor | | D |
|---|---|---|---|
| | Amlwch | £ | 1,037.94 |
| | Biwmares | £ | 1,006.95 |
| | Caergybi | £ | 1,060.58 |
| | Llangefni | £ | 1,039.91 |
| | Porthaethwy | £ | 1,031.11 |
| | Llanddaniel-fab | £ | 1,000.68 |
| | Llanddona | £ | 995.67 |
| | Cwm Cadnant | £ | 1,006.75 |
| | Llanfairpwllgwyngyll | £ | 1,008.65 |
| | Llanfihangel Esceifiog | £ | 1,004.57 |
| | Bodorgan | £ | 998.99 |
| | Llangoed | £ | 996.68 |
| | Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 988.65 |
| | Llanidan | £ | 1,000.86 |
| | Rhosyr | £ | 1,001.74 |
| | Penmynydd | £ | 995.65 |
| | Pentraeth | £ | 1,011.76 |
| | Moelfre | £ | 1,000.41 |
| | Llanbadrig | £ | 1,006.95 |
| | Llanddyfnan | £ | 995.56 |
| | Llaneilian | £ | 997.99 |
| | Llannerchymedd | £ | 999.41 |
| | Llaneugrad | £ | 1,001.24 |
| | Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,007.13 |
| | Cylch y Garn | £ | 994.95 |
| | Mechell | £ | 996.03 |
| | Rhosybol | £ | 994.48 |
| | Aberffraw | £ | 1,006.15 |
| | Bodedern | £ | 996.17 |
| | Bodffordd | £ | 995.99 |
| | Trearddur | £ | 1,003.81 |
| | Tref Alaw | £ | 996.23 |
| | Llanfachraeth | £ | 999.69 |
| | Llanfaelog | £ | 999.18 |
| | Llanfaethlu | £ | 1,002.68 |
| | Llanfair-yn-neubwll | £ | 998.21 |
| | Y Fali | £ | 1,004.55 |
| | Bryngwran | £ | 1,006.50 |
| | Rhoscolyn | £ | 993.25 |
| | Trewalchmai | £ | 999.78 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 6(e) uchod symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 5(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

ff) **Rhan o Ardal y Cyngor**

| Rhan o Ardal y Cyngor | | Bandiau Prisiau A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 691.96 | 807.29 | 922.61 | 1,037.94 | 1,268.59 | 1,499.24 | 1,729.90 | 2,075.88 | 2,421.86 |
| Biwmares | £ | 671.30 | 783.18 | 895.06 | 1,006.95 | 1,230.72 | 1,454.48 | 1,678.25 | 2,013.90 | 2,349.55 |
| Caergybi | £ | 707.05 | 824.90 | 942.73 | 1,060.58 | 1,296.26 | 1,531.95 | 1,767.63 | 2,121.16 | 2,474.69 |
| Llangefni | £ | 693.27 | 808.82 | 924.36 | 1,039.91 | 1,271.00 | 1,502.09 | 1,733.18 | 2,079.82 | 2,426.46 |
| Porthaethwy | £ | 687.40 | 801.98 | 916.54 | 1,031.11 | 1,260.24 | 1,489.38 | 1,718.51 | 2,062.22 | 2,405.93 |
| Llanddaniel-fab | £ | 667.12 | 778.31 | 889.49 | 1,000.68 | 1,223.05 | 1,445.42 | 1,667.80 | 2,001.36 | 2,334.92 |
| Llanddona | £ | 663.78 | 774.41 | 885.04 | 995.67 | 1,216.93 | 1,438.19 | 1,659.45 | 1,991.34 | 2,323.23 |
| Cwm Cadnant | £ | 671.16 | 783.03 | 894.88 | 1,006.75 | 1,230.47 | 1,454.19 | 1,677.91 | 2,013.50 | 2,349.09 |
| Llanfairpwllgwyngyll | £ | 672.43 | 784.51 | 896.57 | 1,008.65 | 1,232.79 | 1,456.94 | 1,681.08 | 2,017.30 | 2,353.52 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 669.71 | 781.33 | 892.95 | 1,004.57 | 1,227.81 | 1,451.04 | 1,674.28 | 2,009.14 | 2,344.00 |
| Bodorgan | £ | 665.99 | 776.99 | 887.99 | 998.99 | 1,220.99 | 1,442.98 | 1,664.98 | 1,997.98 | 2,330.98 |
| Llangoed | £ | 664.45 | 775.20 | 885.93 | 996.68 | 1,218.16 | 1,439.65 | 1,661.13 | 1,993.36 | 2,325.59 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 659.10 | 768.95 | 878.80 | 988.65 | 1,208.35 | 1,428.05 | 1,647.75 | 1,977.30 | 2,306.85 |
| Llanidan | £ | 667.24 | 778.45 | 889.65 | 1,000.86 | 1,223.27 | 1,445.68 | 1,668.10 | 2,001.72 | 2,335.34 |
| Rhosyr | £ | 667.82 | 779.13 | 890.43 | 1,001.74 | 1,224.35 | 1,446.96 | 1,669.56 | 2,003.48 | 2,337.40 |
| Penmynydd | £ | 663.76 | 774.40 | 885.02 | 995.65 | 1,216.90 | 1,438.16 | 1,659.41 | 1,991.30 | 2,323.19 |
| Pentraeth | £ | 674.50 | 786.93 | 899.34 | 1,011.76 | 1,236.59 | 1,461.43 | 1,686.26 | 2,023.52 | 2,360.78 |
| Moelfre | £ | 666.94 | 778.10 | 889.25 | 1,000.41 | 1,222.72 | 1,445.03 | 1,667.35 | 2,000.82 | 2,334.29 |
| Llanbadrig | £ | 671.30 | 783.18 | 895.06 | 1,006.95 | 1,230.72 | 1,454.48 | 1,678.25 | 2,013.90 | 2,349.55 |
| Llanddyfnan | £ | 663.70 | 774.33 | 884.94 | 995.56 | 1,216.79 | 1,438.03 | 1,659.26 | 1,991.12 | 2,322.98 |
| Llaneilian | £ | 665.32 | 776.22 | 887.10 | 997.99 | 1,219.76 | 1,441.54 | 1,663.31 | 1,995.98 | 2,328.65 |
| Llannerchymedd | £ | 666.27 | 777.32 | 888.36 | 999.41 | 1,221.50 | 1,443.59 | 1,665.68 | 1,998.82 | 2,331.96 |
| Llaneugrad | £ | 667.49 | 778.74 | 889.99 | 1,001.24 | 1,223.74 | 1,446.23 | 1,668.73 | 2,002.48 | 2,336.23 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 671.42 | 783.32 | 895.22 | 1,007.13 | 1,230.94 | 1,454.74 | 1,678.55 | 2,014.26 | 2,349.97 |
| Cylch y Garn | £ | 663.30 | 773.85 | 884.40 | 994.95 | 1,216.05 | 1,437.15 | 1,658.25 | 1,989.90 | 2,321.55 |
| Mechell | £ | 664.02 | 774.69 | 885.36 | 996.03 | 1,217.37 | 1,438.71 | 1,660.05 | 1,992.06 | 2,324.07 |
| Rhosybol | £ | 662.98 | 773.49 | 883.98 | 994.48 | 1,215.47 | 1,436.47 | 1,657.46 | 1,988.96 | 2,320.46 |
| Aberffraw | £ | 670.76 | 782.56 | 894.35 | 1,006.15 | 1,229.74 | 1,453.33 | 1,676.91 | 2,012.30 | 2,347.69 |
| Bodedern | £ | 664.11 | 774.80 | 885.48 | 996.17 | 1,217.54 | 1,438.91 | 1,660.28 | 1,992.34 | 2,324.40 |
| Bodffordd | £ | 663.99 | 774.66 | 885.32 | 995.99 | 1,217.32 | 1,438.65 | 1,659.98 | 1,991.98 | 2,323.98 |
| Trearddur | £ | 669.20 | 780.74 | 892.27 | 1,003.81 | 1,226.88 | 1,449.95 | 1,673.01 | 2,007.62 | 2,342.23 |
| Tref Alaw | £ | 664.15 | 774.85 | 885.53 | 996.23 | 1,217.61 | 1,439.00 | 1,660.38 | 1,992.46 | 2,324.54 |
| Llanfachraeth | £ | 666.46 | 777.54 | 888.61 | 999.69 | 1,221.84 | 1,443.99 | 1,666.15 | 1,999.38 | 2,332.61 |
| Llanfaelog | £ | 666.12 | 777.14 | 888.16 | 999.18 | 1,221.22 | 1,443.26 | 1,665.30 | 1,998.36 | 2,331.42 |
| Llanfaethlu | £ | 668.45 | 779.86 | 891.27 | 1,002.68 | 1,225.50 | 1,448.31 | 1,671.13 | 2,005.36 | 2,339.59 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 665.47 | 776.39 | 887.29 | 998.21 | 1,220.03 | 1,441.86 | 1,663.68 | 1,996.42 | 2,329.16 |
| Y Fali | £ | 669.70 | 781.32 | 892.93 | 1,004.55 | 1,227.78 | 1,451.01 | 1,674.25 | 2,009.10 | 2,343.95 |
| Bryngwran | £ | 671.00 | 782.83 | 894.66 | 1,006.50 | 1,230.17 | 1,453.83 | 1,677.50 | 2,013.00 | 2,348.50 |
| Rhoscolyn | £ | 662.16 | 772.53 | 882.88 | 993.25 | 1,213.97 | 1,434.69 | 1,655.41 | 1,986.50 | 2,317.59 |
| Trewalchmai | £ | 666.52 | 777.61 | 888.69 | 999.78 | 1,221.95 | 1,444.12 | 1,666.30 | 1,999.56 | 2,332.82 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 6(e) a 6(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu a'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**7.** Y dylid nodi ar gyfer y flwyddyn 2014/15 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

| **Awdurdod Praeseptio** | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 151.74 | 177.03 | 202.32 | 227.61 | 278.19 | 328.77 | 379.35 | 455.22 | 531.09 |

**8.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 6(ff) a 7 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn, yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor yn y flwyddyn 2014/15 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir isod:

| | | Bandiau Prisiau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 843.70 | 984.32 | 1,124.93 | 1,265.55 | 1,546.78 | 1,828.01 | 2,109.25 | 2,531.10 | 2,952.95 |
| Biwmares | £ | 823.04 | 960.21 | 1,097.38 | 1,234.56 | 1,508.91 | 1,783.25 | 2,057.60 | 2,469.12 | 2,880.64 |
| Caergybi | £ | 858.79 | 1,001.93 | 1,145.05 | 1,288.19 | 1,574.45 | 1,860.72 | 2,146.98 | 2,576.38 | 3,005.78 |
| Llangefni | £ | 845.01 | 985.85 | 1,126.68 | 1,267.52 | 1,549.19 | 1,830.86 | 2,112.53 | 2,535.04 | 2,957.55 |
| Porthaethwy | £ | 839.14 | 979.01 | 1,118.86 | 1,258.72 | 1,538.43 | 1,818.15 | 2,097.86 | 2,517.44 | 2,937.02 |
| Llanddaniel-fab | £ | 818.86 | 955.34 | 1,091.81 | 1,228.29 | 1,501.24 | 1,774.19 | 2,047.15 | 2,456.58 | 2,866.01 |
| Llanddona | £ | 815.52 | 951.44 | 1,087.36 | 1,223.28 | 1,495.12 | 1,766.96 | 2,038.80 | 2,446.56 | 2,854.32 |
| Cwm Cadnant | £ | 822.90 | 960.06 | 1,097.20 | 1,234.36 | 1,508.66 | 1,782.96 | 2,057.26 | 2,468.72 | 2,880.18 |
| Llanfairpwllgwyngyll | £ | 824.17 | 961.54 | 1,098.89 | 1,236.26 | 1,510.98 | 1,785.71 | 2,060.43 | 2,472.52 | 2,884.61 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 821.45 | 958.36 | 1,095.27 | 1,232.18 | 1,506.00 | 1,779.81 | 2,053.63 | 2,464.36 | 2,875.09 |
| Bodorgan | £ | 817.73 | 954.02 | 1,090.31 | 1,226.60 | 1,499.18 | 1,771.75 | 2,044.33 | 2,453.20 | 2,862.07 |
| Llangoed | £ | 816.19 | 952.23 | 1,088.25 | 1,224.29 | 1,496.35 | 1,768.42 | 2,040.48 | 2,448.58 | 2,856.68 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 810.84 | 945.98 | 1,081.12 | 1,216.26 | 1,486.54 | 1,756.82 | 2,027.10 | 2,432.52 | 2,837.94 |
| Llanidan | £ | 818.98 | 955.48 | 1,091.97 | 1,228.47 | 1,501.46 | 1,774.45 | 2,047.45 | 2,456.94 | 2,866.43 |
| Rhosyr | £ | 819.56 | 956.16 | 1,092.75 | 1,229.35 | 1,502.54 | 1,775.73 | 2,048.91 | 2,458.70 | 2,868.49 |
| Penmynydd | £ | 815.50 | 951.43 | 1,087.34 | 1,223.26 | 1,495.09 | 1,766.93 | 2,038.76 | 2,446.52 | 2,854.28 |
| Pentraeth | £ | 826.24 | 963.96 | 1,101.66 | 1,239.37 | 1,514.78 | 1,790.20 | 2,065.61 | 2,478.74 | 2,891.87 |
| Moelfre | £ | 818.68 | 955.13 | 1,091.57 | 1,228.02 | 1,500.91 | 1,773.80 | 2,046.70 | 2,456.04 | 2,865.38 |
| Llanbadrig | £ | 823.04 | 960.21 | 1,097.38 | 1,234.56 | 1,508.91 | 1,783.25 | 2,057.60 | 2,469.12 | 2,880.64 |
| Llanddyfnan | £ | 815.44 | 951.36 | 1,087.26 | 1,223.17 | 1,494.98 | 1,766.80 | 2,038.61 | 2,446.34 | 2,854.07 |
| Llaneilian | £ | 817.06 | 953.25 | 1,089.42 | 1,225.60 | 1,497.95 | 1,770.31 | 2,042.66 | 2,451.20 | 2,859.74 |
| Llannerchymedd | £ | 818.01 | 954.35 | 1,090.68 | 1,227.02 | 1,499.69 | 1,772.36 | 2,045.03 | 2,454.04 | 2,863.05 |
| Llaneugrad | £ | 819.23 | 955.77 | 1,092.31 | 1,228.85 | 1,501.93 | 1,775.00 | 2,048.08 | 2,457.70 | 2,867.32 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 823.16 | 960.35 | 1,097.54 | 1,234.74 | 1,509.13 | 1,783.51 | 2,057.90 | 2,469.48 | 2,881.06 |
| Cylch y Garn | £ | 815.04 | 950.88 | 1,086.72 | 1,222.56 | 1,494.24 | 1,765.92 | 2,037.60 | 2,445.12 | 2,852.64 |
| Mechell | £ | 815.76 | 951.72 | 1,087.68 | 1,223.64 | 1,495.56 | 1,767.48 | 2,039.40 | 2,447.28 | 2,855.16 |
| Rhosybol | £ | 814.72 | 950.52 | 1,086.30 | 1,222.09 | 1,493.66 | 1,765.24 | 2,036.81 | 2,444.18 | 2,851.55 |
| Aberffraw | £ | 822.50 | 959.59 | 1,096.67 | 1,233.76 | 1,507.93 | 1,782.10 | 2,056.26 | 2,467.52 | 2,878.78 |
| Bodedern | £ | 815.85 | 951.83 | 1,087.80 | 1,223.78 | 1,495.73 | 1,767.68 | 2,039.63 | 2,447.56 | 2,855.49 |
| Bodffordd | £ | 815.73 | 951.69 | 1,087.64 | 1,223.60 | 1,495.51 | 1,767.42 | 2,039.33 | 2,447.20 | 2,855.07 |
| Trearddur | £ | 820.94 | 957.77 | 1,094.59 | 1,231.42 | 1,505.07 | 1,778.72 | 2,052.36 | 2,462.84 | 2,873.32 |
| Tref Alaw | £ | 815.89 | 951.88 | 1,087.85 | 1,223.84 | 1,495.80 | 1,767.77 | 2,039.73 | 2,447.68 | 2,855.63 |
| Llanfachraeth | £ | 818.20 | 954.57 | 1,090.93 | 1,227.30 | 1,500.03 | 1,772.76 | 2,045.50 | 2,454.60 | 2,863.70 |
| Llanfaelog | £ | 817.86 | 954.17 | 1,090.48 | 1,226.79 | 1,499.41 | 1,772.03 | 2,044.65 | 2,453.58 | 2,862.51 |
| Llanfaethlu | £ | 820.19 | 956.89 | 1,093.59 | 1,230.29 | 1,503.69 | 1,777.08 | 2,050.48 | 2,460.58 | 2,870.68 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 817.21 | 953.42 | 1,089.61 | 1,225.82 | 1,498.22 | 1,770.63 | 2,043.03 | 2,451.64 | 2,860.25 |
| Y Fali | £ | 821.44 | 958.35 | 1,095.25 | 1,232.16 | 1,505.97 | 1,779.78 | 2,053.60 | 2,464.32 | 2,875.04 |
| Bryngwran | £ | 822.74 | 959.86 | 1,096.98 | 1,234.11 | 1,508.36 | 1,782.60 | 2,056.85 | 2,468.22 | 2,879.59 |
| Rhoscolyn | £ | 813.90 | 949.56 | 1,085.20 | 1,220.86 | 1,492.16 | 1,763.46 | 2,034.76 | 2,441.72 | 2,848.68 |
| Trewalchmai | £ | 818.26 | 954.64 | 1,091.01 | 1,227.39 | 1,500.14 | 1,772.89 | 2,045.65 | 2,454.78 | 2,863.91 |

## 6.4 Y STRATEGAETH AR GYFER Y GYLLIDEB TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, Y DRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS 2014-15 – NEWIDIADAU I'R GYLLIDEB

Ni chafwyd unrhyw newidiadau i'r gyllideb.

## 7.1 NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR – POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn diwygio'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn y Cyfansoddiad yn y dull a nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad ac awdurdodi'r Swyddog Monitro wneud unrhyw newidiadau fydd eu hangen i'r Cyfansoddiad yn dilyn hynny."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn yr adroddiad.**

## 7.2 NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR – LLYWYDD Y CYNGOR

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2014 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir na fydd yn symud ymlaen yn hyn o beth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn y cyswllt hwn.**

## 8. GWERTHUSIAD CYMERIAD ARDAL GADWRAETH ABERFFRAW

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr, 2014 wedi penderfynu:-

"*Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r Gwerthusiad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Aberffraw i'w fabwysiadu fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA)."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn y cyswllt hwn.**

## 9. AMSERIAD CYFARFODYDD

Cyflwynwyd – Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau trefniadau i'r dyfodol ar ôl ystyried sylwadau a wnaed gan rai pwyllgorau ar amser cyfarfodydd.

Dywedodd y Cynghorydd Ann Griffith nad oedd yn gallu derbyn yr adroddiad oherwydd ei bod yn ystyried bod gwendid sylfaenol yn y broses. Roedd llawer o'r Cynghorwyr newydd wedi cyflwyno eu henwau i sefyll yn yr etholiad ar y sail bod hwn yn Gyngor sy'n ymrwymedig i gyfleon cyfartal ac amrywiaeth. Am y tro cyntaf fe etholwyd Cynghorwyr iau o oed gweithio ac, os oedd y Cyngor hwn yn dymuno denu cynrychiolwyr o bob rhan o'r gymuned a chyda cyfrifoldebau gwahanol yn yr etholiad nesaf, byddai'n rhaid edrych ar y mater hwn eto i sicrhau democratiaeth wirioneddol. Awgrymodd y dylid cysylltu â'r Comisiwn ar gyfer Cyfleon Cyfartal a Chynghorau eraill ar hyd a lled y wlad i ofyn am gyngor a syniadau a gofynnodd i'r Cyngor edrych ar y mater hwn eto cyn gynted ag y bo modd.

**PENDERFYNWYD na fydd unrhyw newid yn amser cyfarfodydd y ddau Bwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.**

## 10. CYTUNDEB CANLYNIAD

Dywedodd y Prif Weithredwr – Fod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi sylw i adroddiad brys ar 13 Ionawr 2014 gan y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen ar y trefniadau newydd ar gyfer Cytundeb Canlyniadau am y cyfnod 2013-16 ac yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cytundeb newydd ar gyfer y cyfnod hwn yn seiliedig ar ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn fel un brys o gofio'r angen i gwblhau materion gyda Llywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo modd ac felly nid oedd modd ei alw-i-mewn.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 11. CYNIGION A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD

(1) Cyflwynwyd - Y Rhybudd o gynigiad canlynol gan y Cynghorydd A Morris Jones, wedi ei gydarwyddo gan y Cynghorwyr Bob Parry OBE, Jeff Evans, K P Hughes a Nicola Roberts:-

*"Fel ymateb i Adolygiad Williams, rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn galw ar y Cyngor Sir i ddefnyddio pob ffordd bosibl i hyrwyddo pam y dylid cadw corff gwneud penderfyniad llywodraeth leol ar Ynys Môn."*

Yn y cyfarfod dywedodd y Cynghorydd A Morris Jones ei fod ef a'i gydlofnodwyr wedi penderfynu tynnu'r Rhybudd o Gynigiad yn ôl yn wyneb y datganiad a wnaed yn ddiweddar gan Brif Weinidog Cymru bod unrhyw newidiadau i ffiniau awdurdodau lleol yn annhebygol cyn yr etholiadau Cynulliad nesaf. Roedd Prif Weinidog Cymru hefyd wedi diystyru cwrdd â dyddiad cau Comisiwn Williams ar gyfer cytuno ar ffordd ymlaen erbyn y Pasg, gan ddweud ei fod yn dymuno cael cytundeb trawsbleidiol erbyn yr haf mewn perthynas â'r map Cynghorau i'r dyfodol. Ni fyddai ond modd gwneud rhagor o gynnydd trwy gyfuno gwirfoddol a thrwy bolisïau ym maniffestos y pleidiau.

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw gonsensws yng Nghaerdydd ar y mater, ac na fyddai'r Awdurdod hwn yn gwirfoddoli i gyfuno gyda Chyngor Gwynedd ar hyn o bryd ond y byddai'n parhau i fonitro'r sefyllfa.

(2) Cyflwynwyd – Y Rhybudd o gynigiad canlynol gan y Cynghorwyr Dylan W Rees, Bob Parry OBE a Nicola Roberts: -

*"Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn, i ystyried gwahodd uwch gynrychiolwyr y Swyddfa Bost i ddod gerbron cyfarfod o'r Cyngor llawn i egluro eu cynlluniau dros ryddfreinio'r Swyddfeydd Post Brenhinol yng Nghaergybi a Llangefni.*

*Fel rhan o'u Cynlluniau Trawsnewid, mae'r Swyddfa Bost yn edrych i ryddfreinio 73 o Swyddfeydd Post y Goron ar draws y wlad yn cynnwys Caergybi a Llangefni*

*Mae’r trigolion lleol yn anhapus iawn gyda'r cynlluniau hyn ac mae deisebau mawr wedi eu harwyddo yn y ddwy ardal yn gwrthwynebu'r cynigion. Oherwydd pwysigrwydd y mater hwn rydym yn credu y dylai pob Cynghorydd gael cyfle i sgriwtineiddio cynlluniau’r Swyddfa Bost."*

Dywedodd y Prif Weithredwr bod swyddog o Swyddfa Bost y Goron wedi ymweld ag ef ar 8 Gorffennaf 2013 i drafod eu cynigion ar gyfer yr Ynys. Cyflwynwyd y wybodaeth honno wedyn i i gyfarfod o Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ar 12 Medi lle casglwyd bod y cynigion hyn yn faterion oedd yn fwy priodol i’r Cynghorau Tref a Chymuned eu hystyried yn hytrach na galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor hwn.

**PENDERFYNWYD cytuno i gais o'r fath a gofyn i'r Prif Weithredwr wneud y trefniadau angenrheidiol mewn perthynas â gwahodd uwch gynrychiolwyr o’r Swyddfa Bost i annerch y Cyngor.**

## 12. DIRPRWYAETHAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi unrhyw newidiadau i’r cynllun dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau’r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith neu’r Arweinydd ers y cyfarfod Cyffredin diwethaf (cyfeirir at Rheol 4.4.1.1.2 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith yn y Cyfansoddiad).

## 13. CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 14. DATGANIAD POLISI TÂL 2014-15

Dywedodd yr Aelod Portffolio - bod llythyr gan Gynulliad Cymru wedi dod i law ar ddydd Mawrth ac y gallai cynnwys y llythyr hwnnw gael effaith ar yr adroddiad i’r Cyngor heddiw. Gan nad oedd y Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol wedi cael cyfle hyd yma i ystyried cynnwys y llythyr, awgrymwyd y dylid gohirio'r adroddiad hyd y cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir a gynhelir ar 27 Mawrth 2014.

**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i’r mater hyd y cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir a gynhelir ar 27 Mawrth 2014.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.40 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 27 Mawrth 2014

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, Jim Evans, Ann Griffith,
Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes,
Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones,
Cynghorydd R.Meirion Jones, R Ll Jones, Alun W Mummery,
R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers,
Alwyn Rowlands a Ieuan Williams

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)
Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)
Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CE)
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro
Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (MPE)
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeffrey M.Evans, John Griffith,
D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, H E Jones,
Richard Owain Jones, Nicola Roberts a Dafydd Rhys Thomas

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth yr UDA a hefyd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) datganiad o ddiddordeb yn Eitem 7 o'r cofnodion hyn (Datganiad Polisi Tâl) ac nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar y mater. *(Crybwyllir hyn yn yr adroddiad).*

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Datganodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Gwenda Williams (Arweinydd y Tîm Cefnogaeth, Datblygu Economaidd), am gael ei chydnabod yn Brentis y Flwyddyn - Cyflawniad Gorau (Gweinyddu Busnes, Gwasanaeth Cwsmer ac Adwerthu) gan Coleg Menai.

Cynhaliwyd Seremoni Gwobrau Prentisiaeth 2014 yng Ngwesty'r Celtic Royal, Caernarfon (yn cael ei noddi gan Horizon Nuclear Power). Cydnabuwyd llwyddiant prentisiaid o amrywiaeth o ddisgyblaethau am eu llwyddiannau dysgu.

Yn ddiweddar cwblhaodd Gwenda y cwrs Gweinyddu Busnes NVQ, ac fe'i canmolwyd am ei hymroddiad, ei gwaith caled ac am waith a oedd yn gyson o safon uchel. Llwyddodd i ennill yr NVQ mewn cyfnod o 8 mis, tra'n parhau i gadw cydbwysedd effeithiol rhwng bywyd a gwaith a'i safon eithriadol arferol o broffesiynoldeb a gweithgarwch yn y lle gwaith.

Darllenodd y Cadeirydd hefyd rhestr o rai oedd wedi bod yn llwyddiannus yn y Seremoni Gwobrwyo.

Llongyfarchwyd Mr Edmund Seymour Bailey, DL, Fferm Plas y Bryn, Llanbedr, Gwynedd, ar ei benodi gan y Frenhines yn Arglwydd Raglaw dros Wynedd, i gymryd drosodd gan Ei Anrhydedd Huw Morgan Daniel, a fydd yn ymddeol ar 16 Ebrill 2014, wedi wyth mlynedd yn y swydd.

Bu yn Uchel Siryf rhwng 2012-13 a chawsom y pleser o'i gyfarfod bryd hynny mewn un neu ddau o achlysuron Dinesig yma ym Môn.

Dymunodd y Cyngor yn dda i Mr. Edmund Bailey yn y swydd a hefyd ymddeoliad hapus i Mr. Huw Morgan Daniel.

Llongyfarchwyd Mr. David Lea-Wilson o Gwmni Halen Môn, sydd wedi ei benodi yn Uchel Siryf am y flwyddyn i ddod.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd ag unrhyw aelod o'r cyngor neu staff oedd wedi colli perthynas, a safodd yr Aelodau a'r Swyddogion fel arwydd o barch.

**3. RHEOLI'R TRYSORLYS**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys: Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn am 2013/14. Roedd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor er mwyn cydymffurfio ag argymhellion Cod Ymddygiad CIPFA ar Reoli'r Trysorlys.

Roedd y Cyngor wedi penderfynu y dylai'r Pwyllgor Archwilio fod yn gyfrifol am sgriwtineiddio materion Rheoli'r Trysorlys ac roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried cynnwys yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2013 ac wedi penderfynu derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad oedd hefyd wedi ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio.**

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a**

**honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 5. PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol am y broses gaffael am fidiwr a ffefrir i Brosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi ystyried yr adroddiad ar 13 Mawrth 2014 ac wedi penderfynu "derbyn yr adroddiad a'r argymhellion oedd ynddo". Roedd y Pwyllgor Gwaith hefyd wedi ystyried yr adroddiad ar 17 Mawrth 2014 ac wedi penderfynu "argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r argymhellion a geir yn yr adroddiad".

Gofynnwyd cwestiwn gan y Cynghorydd Ann Griffith ac awgrymodd strategaeth arall ond ni roddwyd unrhyw welliant gerbron.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion oedd yn yr adroddiad.**

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 7. DATGANIAD POLISI TÂL 2014-15

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) - bod Deddf Lleoliaeth 2011, yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau yng Nghymru a Lloegr lunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Roedd y Ddeddf yn gofyn i bob Awdurdod ddatblygu a chyhoeddi eu Polisi Tâl ynglŷn â phob agwedd o daliad cydnabyddiaeth prif swyddogion. Er lles tryloywder ac atebolrwydd roedd y Cyngor wedi dewis cymryd agwedd ehangach a llunio datganiad polisi oedd yn cynnwys yr holl grwpiau o weithwyr, ac eithrio athrawon ysgol oherwydd nad oedd eu taliad cydnabyddiaeth o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol.

Cyhoeddodd y Cyngor ei ddatganiad polisi tâl cyntaf yn 2012 ac roedd newidiadau bychan wedi eu hymgorffori yn adroddiad y flwyddyn hon er mwyn adlewyrchu strategaeth gyfredol y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r Swyddog Monitro esbonio pam oedd yr adroddiad hwn yn cael ei drin fel eitem eithriedig.

Esboniodd y Swyddog Monitro fod y canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r drafodaeth ar yr eitem hon ddigwydd yn y maes cyhoeddus.

Fodd bynnag, roedd yr adroddiad wedi ei farcio fel eitem eithriedig er mwyn rhoi'r hyblygrwydd priodol i'r Aelodau.

Hynny yw, unwaith y bydd wedi ei gymeradwyo bydd y polisi'n cael ei roi ar wefan y Cyngor a gofynnir i'r Aelodau gadarnhau ei fod yn adlewyrchiad cywir o'r polisi a sefydlwyd. Os oedd Aelodau yn dymuno cyfyngu eu hunain i'r drafodaeth honno yna byddai'n briodol ei drafod yn gyhoeddus.

Fodd bynnag, pe bai Aelodau yn dymuno trafod swyddi unigol neu grwpiau o swyddi byddai angen iddynt wneud hynny mewn sesiwn gaeedig; gan gydnabod na ellid gwneud newidiadau i delerau ac amodau yn y cyfarfod hwn ac y byddai angen mynd trwy'r broses briodol.

Trafodwyd cynnwys y polisi yng nghyswllt tâl Prif Swyddogion mewn peth manylder gan yr Aelodau.

Roedd cyngor gan Adnoddau Dynol yn dweud bod y ddogfen yn un oedd wedi derbyn cytundeb y Cyngor llawn yn ôl yn 2011 yn ystod cyfnod y Comisiynwyr ac roedd yn parhau mewn grym oni bai bod y Cyngor yn penderfynu fel arall.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl oedd ynghlwm wrth yr adroddiad fel Datganiad Polisi Tâl y Cyngor am 2014-15.**

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 9. TÂL CYFARTAL

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd ar lafar gan y Deilydd Portffolio, yn cadarnhau bod materion yn symud ymlaen yn unol â'r drefn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad cynnydd a lle y bydd angen gwneud penderfyniadau penodol pellach, bod awdurdod yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinyddion Grwpiau, Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol).**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **22.4.14** |
| **Pwnc:** | **Dogfen Cyflawni Blynyddol 14/15** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Bethan Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>**752111**<br>**GethinMorgan@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu y Ddogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 14/15 yn ei gyfarfod ar y 8 Mai, 2014.
At ddibenion eglurder mae'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol yn cael ei adnobof fel arall fel y Cynllun Gwella (a amlinellir yn y Cyfansoddiad).

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Nid oes unrhyw opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan fod hyn yn rhan o'r Fframwaith Polisi sy'n nodi'r angen i ddogfen o'r fath gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dangos y prif feysydd ar gyfer gwella a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor yn ystod 2014-15 sydd yn clirio'n swyddogaeth ni o wellhad parhaol sy'n cael ei gydnabod yn ofyniad statudol o dan y Mesur Llywodraeth Leol - Cymru 2009 a 2011.

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cytuno gyda’r cyfeiriad gweithredol ar gyfer 14/15 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | I'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 17 Ebrill, ac wedi hynny bydd adborth llafar yn cael ei roi gan y Deilydd Portfiolio i'r Pwyllgor Gwaith |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2014/15 |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| Cynllun Corfforaethol 2013-17 fel a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2013 |

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Dogfen Cyflawni Blynyddol 2014/15
# (Cynllun Gwella)

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Mon
LL77 7TW
Ffon: (01248) 752111

## DOGFEN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2014-2015

## CYFLWYNIAD

Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn erbyn 2017 yw -

**"Y byddwn yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion"**

Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, fel Cyngor bydd angen i ni drawsnewid ein gwasanaethau. Rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor fydd medru gwrando ar yr hyn mae ein dinasyddion, defnyddwyr ein gwasanaethau a busnesau yn ei feddwl – a gweithredu arno. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y byddwn yn cadw ein haddewidion yn ystod y flwyddyn nesaf (2014/15).

Mae'r gwaith mwyaf pellgyrhaeddol ar ymgynghori yr ydym erioed wedi'i wneud fel cyngor wedi cynorthwyo i greu'r cynllun hwn .

Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ers 2012, gofynnwyd i ddinasyddion am eu barn ynglŷn â pha wasanaethau'r Cyngor sydd bwysicaf iddynt, a pha rai oedd yn llai pwysig yn eu barn nhw. Ar draws demograffeg, daearyddiaeth a'r mecanweithiau ymgynghori gwahanol y blaenoriaethau cyson yw:

- Cefnogi'r mwyaf bregus
- Datblygu'r Economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

Y blaenoriaethau hyn yw sail y meysydd ffocws yn y ddogfen Cyflawni Cynllun Corfforaethol hon sy'n nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni ein haddewidion yn ystod 2014/15.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y byddwn yn awr yn cyflawni ein haddewidion dros y deuddeg mis nesaf (2014/15) ac yn dangos ein parodrwydd i yrru a chyflawni ein dyletswydd o welliant parhaus yn ôl y disgwyladau ar Awdurdodau Lleol o dan y mesur Llywodraeth Cymru 2009.

Byddwn yn monitro yn barhaus cyflawni y themâu a'r canlyniadau canlynol drwy ein prosesau a gweithdrefnau rheoli perfformiad sefydledig, gan gynnwys monitro rheolaidd o ddangosyddion perfformiad a gwybodaeth ategol arall.

# Ein bod yn Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Mae pobl yn byw'n hirach ac fel y cyfryw, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o tua 70 % yn nifer y bobl dros 85 sy'n byw ar yr Ynys dros y 10 mlynedd nesaf *. Mae gan Ynys Môn un o'r poblogaethau pobl hŷn mwyaf yng Nghymru. Mae cynnydd hefyd yn niferoedd y bobl sydd â chyflyrau cymhleth tymor hir gan gynnwys dementia. Er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'r cymhlethdodau cynyddol yn y galw (yn nhermau cyllid a gweithlu) mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn awr ac felly hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn dechrau'r broses o drawsnewid, byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod 2014/15.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2014/ 15?**

**Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne'r Ynys drwy:**

- **Nodi safleoedd addas a phartner datblygu, a chytuno ar fodel gwasanaeth a dylunio ar gyfer Gofal Ychwanegol mewn cydweithrediad ag anghenion y gymuned leol**
- **Sicrhau bod Cynlluniau, gan gynnwys caniatâd angenrheidiol, wedi eu sefydlu ar gyfer dechrau adeiladu Tai Gofal Ychwanegol**
- **Gweithredu'r opsiwn sydd fwyaf ymarferol yn ariannol ar gyfer Llawr Y Dref, Llangefni fel y nodwyd gan Werthusiad Opsiynau**
- **Adnabod opsiynau datblygu a safle ar gyfer Gofal Ychwanegol yn Ne'r Ynys**

**Gwella ystod ac argaeledd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth a'r angen am gartrefi gofal preswyl drwy:**

- **Gytuno ar strategaeth a chynllun clir i alluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy, fel y nodwyd drwy Strategaeth 'Does Unman yn debyg i Gartref'**
- **Datblygu, cytuno a dechrau gweithredu model 'Hyb Cymunedol' erbyn Rhagfyr 2014, lle bydd ystod eang o gefnogaeth a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gymunedau lleol (ac yn aml yn anffurfiol) yn cael eu gwella a'u "cyd-gysylltu" fel bod gwell cefnogaeth a gofal yn cael ei darparu i'r person hŷn mewn angen gan a thrwy'r gymuned leol.**

**Ailddatblygu ein gwasanaeth ail-alluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy:**

- **Datblygu a sefydlu rhaglen ail-alluogi sy'n galluogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth i aros neu ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain a symud allan o'r ysbyty neu leoliadau gofal eraill.**
- **Gwella integreiddiad gwasanaeth ail-alluogi gyda phob rhan o'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion gofal a llety pobl hŷn**

**Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd , datblygu trefniadau i reoli a darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr trwy:**

- **Datblygu prosiect sy'n gwella darparu gwasanaethau cymorth Dementia drwy adolygu trefniadau trothwy a chytuno, erbyn Gorffennaf 2014, gynllun prosiect ar gyfer camau a fydd yn gwella gwasanaethau a gweithio ar y cyd ag Iechyd**
- **Cynnal archwiliad o ofalwyr teulu a'r cymorth y maent ei angen erbyn Hydref 2014**

DRAFT

# Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Mae'r Cyngor yn dymuno gweld dyfodol lle mae cymunedau lleol , mentrau cymdeithasol , busnesau a'r sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd i gytuno a rhoi sylw i flaenoriaethau adfywio. Yn ogystal, anelwn at weithio mewn partneriaeth i ddefnyddio'r buddsoddiad economaidd arfaethedig i wella ansawdd bywyd. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni feddwl yn greadigol, rhannu adnoddau a chydweithio i wella bywydau a chyfleoedd i bobl leol.

Mae'r economi yn fater o bwys i lawer ac mae ein dinasyddion yn ystyried bod creu swyddi yn hollbwysig i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd . Er y cydnabyddir mai'r sector preifat yw'r prif sbardun economaidd a chyfoeth ar yr Ynys, mae gan y Cyngor rôl yn sefydlu amgylchedd ar gyfer twf lle gall busnesau lleol dyfu ac ehangu a lle gall mwy o fusnesau newydd sefydlu eu hunain a ffynnu.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Parth Menter a ddynodwyd yn ddiweddar yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y sector ynni carbon isel i dyfu. Bydd y Cyngor yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, gwella seilwaith a chefnogi'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gefnogi a datblygu sectorau allweddol eraill, megis twristiaeth, sy'n gyrru economi'r Ynys.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2014/15?**

**Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau cystadleurwydd economi'r ynys drwy wella seilwaith , argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol drwy;**

- **Gwneud y mwyaf o arian Ewropeaidd a domestig allanol ( gan gynnwys cronfeydd Strwythurol yr UE a Chynllun Datblygu Gwledig 2014-2020) i fanteisio ar gyfleon adfywio a buddsoddi, gan gynnwys darparu a chau 16 o brosiectau UE presennol a datblygu 15 o achosion busnes newydd mewn Seilwaith Strategol , Safleoedd ac Adeiladau, Adfywio Ffisegol , Twristiaeth a Chefnogi Busnes**
- **Dylanwadu , hyrwyddo a chyd -drefnu gweithgareddau cefnogi busnes a menter – gan gynnwys cefnogi 18 o fusnesau presennol a newydd a chreu 25 o swyddi newydd mewn mentrau bach a chanolig eu maint ( sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ) drwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol**
- **Gwella a datblygu safleoedd ac adeiladau seilwaith a busnes strategol newydd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys adeiladu 4 uned busnes newydd yn Llangefni i fynd i'r afael a diffyg buddsoddiad mewn adeiladau ar Ynys Môn**
- **Sicrhau bod Ynys Môn yn manteisio'n llawn ar y dynodiad Parth Menter gan Lywodraeth Cymru trwy ymateb i bob cais mewnfuddsoddi**

**Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn ar gyfer ymwelwyr drwy ei gefnogaeth i gynllun rheoli cyrchfan yr ynys drwy;**

- **Datblygu a hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn drwy ddenu 250,000 o ddefnyddwyr unigryw i ymweld â CroesoMon.com a 95,000 o ddefnyddwyr unigryw yn ymweld a TreftadaethMon.com**
- **Cefnogi digwyddiadau twristiaeth strategol a phrosiectau gan gynnwys -**
  - **gwelliannau cylchdeithiau cerdded/ llwybr beicio,**
  - **gwella 'Apps' ar gyfer Ffonau Symudol drwy cyfryngau digidol**
  - **parhau i farchnata a Hyrwyddo Geo Môn**
  - **Tour de Môn, Gŵyl Feicio Cymru, Triathlon Llanc y Tywod Ynys Môn, Gŵyl Gardd Goll (gŵyl gerddoriaeth) Gŵyl Fwyd Môr, Copperfest, Miwsig Moelfre a Gŵyl Ffilm SeeMor**
- **Datblygu economi Mordeithio'r ynys drwy groesawu 15 o longau mordeithio i Borthladd Caergybi**
- **Gweithredu cynlluniau gwella cyfalaf pellach yn Porth Dafarch, Bae Trearddur, Rhosneigr, Cemaes ac Afon Menai a darparu sesiynau rhoi cynnig ar chwaraeon dŵr**
- **Prydlesu 400 o angorfeydd blynyddol a chofrestru 1,000 o gychod a badau dŵr personol**
- **Darparu gwasanaeth diogel, effeithiol a chydlynol i gwrdd ag anghenion cymunedau arfordirol ac ymwelwyr drwy gwblhau gwelliannau i'r seilwaith yn Noc Pysgod Caergybi**

**Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau seilwaith (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad, buddsoddi a chreu swyddi drwy;**

- **Cydweithio gyda datblygwyr prosiect a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i fuddsoddi mewn pobl, busnes a seilwaith cystadleuol i fanteisio ar gyfleoedd lleol a rhanbarthol ar gyfer swyddi, twf a ffyniant**
- **Sicrhau sgiliau ac adnoddau i foderneiddio seilwaith i gefnogi datblygiadau ynni carbon isel a chodi ymwybyddiaeth o botensial cyfleoedd cyflogaeth i ddenu pobl yn ôl i Ynys Môn , a sicrhau fod gan y gweithlu a phobl ifanc leol y sgiliau a'r galluoedd priodol trwy baratoi busnesau lleol i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir trwy ddatblygiadau mawr**
- **Paratoi'r Prosbectws Seilwaith Ynys Môn i amlinellu gofynion a gwelliannau i'r dyfodol a sicrhau gwell gwasanaethau i safleoedd Parth Menter a flaenoriaethir i'r dyfodol**
- **Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer Ffordd Gyswllt Llangefni i'r Gaerwen - llwybr newydd i wella cysylltiadau a chysylltedd rhwng Parc Busnes Bryn Cefni a Choleg Menai a ddylai hefyd agor ardaloedd newydd sylweddol o dir cyflogaeth**

DRAFT

**Ymgymryd â'n cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posib trwy:**

- **Nodi, diffinio a datblygu dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn o ran etifeddiaeth prosiectau ynni mawr (statudol ac anstatudol - ee Pŵer Niwclear Horizon a Celtic Array) a sicrhau adnoddau trwy Gytundebau Cynllunio Perfformiad gyda datblygwyr mawr fel y gellir cyfrannu at y broses gynllunio statudol mewn modd gwybodus ac amserol**
- **Sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Sir**
- **Paratoi a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu Rhaglen Ynys Ynni a'r Cynllun Cyflawni a pharhau i gydweithio gydag Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru**

**Gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu parc gwyddoniaeth yn Ne'r Ynys gan ychwanegu gwerth i'r datblygiadau ynni arfaethedig, creu swyddi ac arallgyfeirio'r economi leol drwy**

- **Gefnogi Prifysgol Bangor i ddatblygu eu Parc Gwyddoniaeth a sefydlu Rhaglen Ynni Arforol Gogledd Cymru**

**Gyrru adfywiad cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roddi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch drwy;**

- **Weithredu yn effeithiol y Rhaglen Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yng Nghaergybi a chytuno ar ganlyniadau gyda Llywodraeth Cymru.**
- **Datblygu achosion busnes adfywio ffisegol ar gyfer Llangefni ac Amlwch ar ôl gwerthuso opsiynau mewn modd cadarn er mwyn nodi blaenoriaethau a gweithgareddau adfywio ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol i fynd i'r afael ag anghenion a gofynion penodol y ddwy dref**
- **Datblygu dealltwriaeth gadarn o holl asedau a gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn y gellid eu trosglwyddo/allanoli i bartneriaid a chyrff eraill**

DRAFT

# Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Ysgolion

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir a'i hamgylchiadau gyflawni eu llawn botensial a bod yn barod i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol a hyrwyddwyr cymunedol yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, rydym yn derbyn bod angen i ni godi safon addysg yn Ynys Môn. Yn hyn o beth, derbynnir mai un o'r blaenoriaethau i'r Cyngor yw herio syniadau cyfredol, annog arloesed a datblygu seilwaith ysgolion a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad, lleihau lleoedd gwag, gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol yn gymdeithasol-economaidd i'n rhaglen gwella cymunedol.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2014/15?**

### Parhau i godi safonau o ran cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb drwy:

- **Weithredu'r Cytundeb Partneriaeth yn gyson a thargedu cymorth a her i ysgolion penodol er mwyn sicrhau eu bod yn atebol ar gyfer gwelliannau a gwneud defnydd addas o'r holl ddata sydd ar gael i gytuno ar dargedau heriol ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd.**
- **Sicrhau bod pob ysgol yn glir ar y camau i'w cymryd i gynyddu lefel yr her i ddysgwyr mwy galluog a thalentog .**
- **Adolygu prosesau i safoni asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen a CA2 mewn ysgolion cynradd.**
- **Sicrhau bod gan bob ysgol gynlluniau priodol ar waith i wneud defnydd effeithiol o ddata mewn perthynas ag oedran darllen a gwybodaeth am arferion effeithiol i wella safonau darllen, a bod yr Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o ddata oedran darllen i herio ysgolion unigol.**
- **Datblygu rôl y Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas ag Addysg ac 'ysgolion sy'n peri pryder' a sicrhau bod Cyrff Llywodraethol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â gweithredu fel cyfaill beirniadol i herio Prifathrawon .**

### Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i arwain penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys drwy:

- **Datblygu Rhaglen gynhwysfawr ac uchelgeisiol ar gyfer Moderneiddio Ysgolion ac ymgynghori yn ei chylch a'i mabwysiadu.**
- **Agor Canolfan Addysg y Bont yn swyddogol ar 15 Mai, 2014**
- **Trefnu fod digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynllunio ar gyfer ysgolion ardal newydd yn y Llannau (Llanfachraeth, Llanfaethlu a Llanrhuddlad ardal) ac yn ardal Caergybi yn ystod y flwyddyn, ac wedi hynny bod adroddiadau llawn ac achosion amlinellol strategol yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a Llywodraeth Cymru**

### Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain gyda chyfleoedd yn y dyfodol drwy:

- **Alinio'r rhaglen sgiliau 14-19 gyda chyfleoedd cyflogaeth sy'n esblygu a'r Strategaeth Datblygu Sgiliau Rhanbarthol a sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn cael sylw priodol ym mhob cyfnod allweddol**

DRAFT

# Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi

Mae cael lle fforddiadwy safonol i fyw yn bwysig i sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas sy'n eu galluogi i gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, hamdden, a mwynderau ac addysg. Yn ogystal, mae'r sylfaen bwysig hon yn eu galluogi i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu. Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn gweithio tuag at fuddsoddi'n sylweddol yn Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat i sicrhau'r nifer uchaf posib o gartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod 2014/15.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2014/15?**

**Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor budd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth a gweithio tuag at ein strategaeth gwrthdlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles drwy:**

- **Taclo tlodi yn Ynys Mon drwy ddatblygu Strategaeth Gwrthdlodi gydag asiantaethau partner dan gyfarwyddyd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol**
- **Sefydlu tudalennau Diwygio Lles penodol ar wefan y Cyngor a chyhoeddi taflenni gwybodaeth ar reoli cyllidebau ar gyfer tenantiaid tro cyntaf (pob deiliadaeth) i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd ei angen ar Ynys Môn**
- **Sicrhau 75 % o geisiadau llwyddiannus ar gyfer arian o'r Gronfa Cymorth Dewisol sy'n cael eu cefnogi a'u harwyddo gan yr Awdurdod Lleol**

**Cynyddu'r opsiynau o ran tai fforddiadwy sydd ar gael ar hyd a lled yr ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd**

- **ddod â 75 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd**

**Archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai trwy**

- **Gynorthwyo ymgeiswyr i gael grantiau prynwyr tro cyntaf ar gyfer eiddo gwag a'u prynu drwy Gymorth Prynu Cartref Ynys Môn**
- **Cynyddu nifer yr ymgeiswyr am dai fforddiadwy sydd wedi eu cofrestru gyda Tai Teg**

**Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc drwy**

- **Archwilio'r posibilrwydd y gall contractwyr gynnig prentisiaethau ac/neu gyfleoedd hyfforddi i bobl leol**

**Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol drwy:**

- **Gynyddu  nifer y landlordiaid sydd â statws achrediad i ddarparu cartrefi o safon uchel sy'n cael eu rheoli'n dda**
- **Sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o landlordiaid sy'n gweithredu ar yr ynys**
- **Cynyddu nifer y landlordiaid sydd wedi derbyn anogaeth i ddarparu llety i gleientiaid a gyfeiriwyd gan y Gwasanaethau Tai**
- **Adeiladu 23 o dai fforddiadwy newydd**

DRAFT

# Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Mae cyfleusterau chwaraeon a hamdden, a'r rhaglenni gweithgaredd sy'n eu defnyddio, yn chwarae rhan sylweddol yn iechyd y gymuned ac yn cynyddu hunan - hyder pobl . Byddwn yn gweithio tuag at fabwysiadu ymagwedd fwy integredig o ran materion lles yn y dyfodol a fydd yn fodd i adolygu ac ailddiffinio rôl chwaraeon a hamdden. Wrth i rôl y gymuned a grwpiau eraill gynyddu o ran darpariaeth, byddwn yn sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig o ran hamdden yn addas i'r pwrpas ac yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian wrth i ni geisio gwella iechyd a lles ein dinasyddion.

Rydym yn awyddus i gadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau drwy sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn darparu 'mynedfa gyffredinol' i ni fel cyngor. Bydd hyn yn golygu mwy o weithio mewn partneriaeth a rhannu adeiladau, er mwyn sicrhau mynediad symlach, gwell a di-dor i bobl leol i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2014/15?**

**Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden tymor ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi yn ystod oes y cynllun hwn drwy**

- **Datblygu Strategaeth Hamdden tymor hir a rheoli'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth o weithgareddau yn effeithiol yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch, Caergybi a Llangefni i annog trigolion Ynys Môn i fod yn fwy egnïol, yn fwy aml**
- **Cynyddu presenoldeb a chyfranogiad yn y Canolfannau Hamdden a chreu incwm yn sgil hynny a chyflwyno system fodern ar gyfer llogi gweithgareddau a gwneud taliadau yn y Canolfannau Hamdden**
- **Gwella dulliau marchnata a hyrwyddo er mwyn annog mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol presenol er mwyn cynyddu presenoldeb**

**Cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda'n darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd a thrafod gyda darparwyr allanol cymunedol i redeg y cyfleusterau gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Ysgol drwy**

- **Ystyried a datblygu modelau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y cyfleusterau mewn ffyrdd gwahanol fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth Hamdden tymor hir**

**Annog datblygu a chefnogi darpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau**

- **Ystyried a datblygu modelau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol a manteisio ar amgylchedd naturiol yr ynys i gyflwyno cyfleoedd o ran gweithgareddau awyr agored**
- **Allanoli nifer o gyfleusterau awyr agored / cymunedol yng Nghaergybi**



DRAFT

- **Sefydlu Rhaglen i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau awyr agored**
- **Adnabod model newydd ar gyfer darparu gwasanaeth yng Nghwrs Golff Llangefni**

**Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgelloedd**

- **Sefydlu a chyflwyno gwerthuso opsiynau posibl ar gyfer cynnal Gwasanaeth Llyfrgell mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol a chynllunio a chytuno ar fodel addas sy'n gweddu orau i anghenion trigolion Ynys Môn a'r adnoddau sydd ar gael.**

**Ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth yn ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu trefniadau rheoli newydd (os yw'n berthnasol)**

- **Asesu'r opsiynau gorau posibl ar gyfer rheoli a hyrwyddo ein holl Safleoedd Treftadaeth yn y dyfodol**

DRAFT

# Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Mae gennym lawer i'w wneud eto i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Cynghorau eraill rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin . Rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud - a gweithredu ar hynny. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddarparu gwasanaethau'n well a bydd hyn ond yn gwella eto . Byddwn yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel 'Facebook' a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2014/15?**

**Datblygu , cytuno a llofnodi siarter cwsmeriaid cadarn a dilys sydd yn gosod disgwyliadau penodol ar ein staff wrth ddelio â chwsmeriaid**

- **Cymeradwyo a mabwysiadu Siarter Cwsmeriaid yn dilyn ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol**
- **Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor er mwyn recriwtio staff a dylunio a mabwysiadu arferion gwaith sy'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid orau yn y dyfodol**

**Datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad gyda dinasyddion Ynys Môn a'u cynnwys ym mhrosesau'r Cyngor o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau drwy**

- **Gefnogi'r Prosiect partneriaeth 4 blynedd Lleisiau Cymunedol "Gwrandwch" (a gychwynnodd yn Ebrill 2013) er mwyn ymgysylltu mwy ag unigolion a chymunedau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar Ynys Môn**

**Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael drwy**

- **Archwilio opsiynau o ran dyluniad prif adeilad swyddfa'r Cyngor gan ganolbwyntio i ddechrau ar y dderbynfa gyda golwg ar greu ardal amlswyddogaethol yn seiliedig ar y safonau a gynigir yn y Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid**

**Sicrhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy greu a gweithredu ar strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig**

- **Sy'n nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg trwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Iaith Gymraeg**

# Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu fusnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Gellir rhyngweithio yn electronig, yn fewnol ac yn allanol ac ar bob lefel. Bydd cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn rhyddhau staff i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn eto'n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a byddir yn rhesymoli'n drylwyr i sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2014/15?**

**Galluogi staff i gael mynediad at y systemau cyfrifiadurol sydd ei angen arnynt yn ddiogel o unrhyw leoliad drwy:**

- **Gweithredu'r weledigaeth Prosiect Gweithio'n Gallach i alluogi staff i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd mwy hyblyg**

**Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt drwy:**

- **Cyflwyno 'System strategol ar gyfer Rheoli'r Berthynas gyda'r Cwsmer (CRM)' sy'n galluogi cwsmeriaid i gynnal eu trafodion o'r dechrau i'r diwedd heb unrhyw ymyrraeth, os o gwbl, gan swyddogion**

**Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn fwy eang i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol drwy:**

- **Weithredu'r cynnig Gweithio'n Gallach/Gweithio Hyblyg a sicrhau bod gan ein staff ddyfeisiau symudol priodol fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau mewn modd effeithlon ac effeithiol**

- **Ymchwilio i ddatrysiadau ar gyfer gwella mynediad diogel o bell at systemau corfforaethol a darparu cymorth busnes wrth wneud penderfyniadau i hyrwyddo gwasanaethau awtomataidd ac opsiynau hunanwasanaeth wrth adolygu datrysiadau TG cyfredol**

- **Hyrwyddo'r angen i sefydlu rhyngwynebau, lle bo hynny'n bosibl, rhwng systemau TGCh gwahanol i gael mwy o elw ar fuddsoddiad a chael cael gwared ar ddyblygu a gwallau a rhannu asedau corfforaethol lle bynnag y bo modd**

DRAFT

**Chwilio am dechnolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion presennol a dyfodol y Cyngor a dinasyddion yr Ynys drwy:**

- **Ddatblygu a darparu datrysiad wrth gefn cadarn i gefnogi'r systemau TG sy'n hanfodol ar gyfer busnes ac a fydd yn cefnogi trawsnewid yr Awdurdod**
- **Datblygu a defnyddio e-ffurflenni drwy wefan gorfforaethol yr Awdurdod er mwyn galluogi dinasyddion Ynys Môn, partneriaid busnes a'r gymuned ehangach i gyfathrebu a chael gafael ar wybodaeth yn ystod a'r tu allan i oriau busnes arferol.**
- **Cefnogi a gwella cysylltedd rhwydweithiau band eang cyflym a symudol ar gyfer dinasyddion Ynys Môn**

DRAFT

# Manylion Pellach

**I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**

**Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TWF**
**fôn - 01248 752111E**
**-bost - GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:**
**www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol**

**Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**
**Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk**

**Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:**
**www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC**

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:**

- **Swyddfa Archwilio Cymru:**
  **www.wao.gov.uk**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:**
  **www.cssiw.org.uk**
- **Estyn:**
  **www.estyn.gov.uk**

**Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu i gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda trwy'r manylion cyswllt a amlinellir ar frig y dudalen hon.**



DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 8 MAI 2014 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU AR GYFER 2014/15 |
| ADRODDIAD GAN: | Y PENNAETH DROS DRO AR GYFER GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A'R PENNAETH SWYDDOGAETH – ADNODDAU |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | PENDERFYNU NIFER Y TALIADAU UWCH GYFLOG AR GYFER 2014/15 |

**1.0 Rhagarweiniad**

1.1 Mae taliadau i Aelodau ar gyfer 2014/15, gan gynnwys taliadau i Aelodau Cyfetholedig, wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Y Panel) yn ei adroddiad blynyddol (Chwefror 2014). Mae'r prif newidiadau wedi eu nodi yn yr adroddiad hwn.

1.2 Mae angen adrodd i'r Cyngor ar y wybodaeth hon er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog.

**2.0 Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2014/15**

**Cyflog Sylfaenol**

2.1 Mae'r Panel wedi penderfynu'n awr ei fod yn briodol codi'r cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau prif awdurdodau lleol gan lai na 1% - o £13,175 i **£13,300** ar gyfer 2014/15.

**Uwch Gyflogau**

2.2 Mae gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch nifer yr uwch gyflogau y mae'n eu talu, hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel. Y nifer uchaf o uwch gyflogau y gellir eu talu yn Ynys Môn am 2014/15 yw 15 ac mae'r ffigwr hwn yn dal i gynnwys cyflogau dinesig. Ar gyfer 2013/14 penderfynodd y Cyngor ddyrannu uwch gyflogau i 14 o Aelodau a oedd yn dal swyddi.

2.3 Mae uwch gyflogau bellach wedi eu grwpio i 5 Band (roedd 4 Band yn 2013/14).

2.4 Yn yr adroddiad drafft gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, cynigwyd lefelau cyfrifoldeb lle byddai pob Cyngor yn gallu pennu gwahanol gyfraddau o gydnabyddiaeth wrth benderfynu'r taliadau a wneir i Gadeiryddion Pwyllgorau, Penaethiaid Dinesig a Dirprwy Benaethiaid Dinesig. Roedd hynny o ganlyniad i gonsensws barn yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Panel nad oedd talu cyflog ar un raddfa benodol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgor yn

adlewyrchu'r amrywiaeth eang o rolau, cyfrifoldebau a baich gwaith. Fodd bynnag, oherwydd bod y mwyafrif llethol o'r ymatebion i'r adroddiad drafft yn erbyn y cynnig hwn, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2014/15, bod rhaid i bob Awdurdod unigol, waeth beth fo maint ei boblogaeth, dalu uwch gyflog band 3 i Gadeiryddion Pwyllgorau, os ydynt yn cael tâl, sef £22,000.

| **Uwch Gyflogau (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy-Arweinydd | **£43,000**<br>**£30,000** |
| **Band 2** | Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith | **£26,000** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgor | **£22,000** |
| **Band 4** | Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol mwyaf* | **£22,000** |
| **Band 5** | Arweinydd Grŵp Gwrthbleidiol arall* | **£17,000** |
| * Nid yw'r rheol 10% wedi newid | | |

**Penaethiaid Dinesig a Dirprwy Benaethiaid Dinesig**

2.5 O gofio rôl ac uwch gyfrifoldebau penaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig, a'r amser a dreulir ganddynt yn eu swyddogaethau, mae'r Panel wedi penderfynu bod cyflogau dinesig o fewn y tair lefel a nodir yn y tabl isod yn daladwy (lle maent yn cael eu talu) ac y byddant yn cael eu talu gan Awdurdodau fel y gwêl pob un ohonynt yn briodol, gan gymryd i ystyriaeth y baich gwaith a'r cyfrifoldebau a ragwelir.

| **Cyflogau Dinesig (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | |
|---|---|
| Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor) | **A - £24,000**<br>**B - £21,500**<br>**C - £19,000** |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Gadeirydd y Cyngor) | **A - £18,000**<br>**B - £16,000**<br>**C - £14,000** |

2.6 O'r herwydd, mae gan y Cyngor ddisgresiwn i dalu cyflog dinesig (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol) yn unol â'r lefelau a bennir gan y Panel. Yn 2013/14 derbyniodd Cadeirydd y Cyngor gyflog o £19,035 a derbyniodd yr Is-Gadeirydd gyflog o £14,805. Roedd y ddau gyflog yn cynnwys y cyflog sylfaenol. Ar y sail honno, ac ar ôl ymgynghori gydag Arweinyddion y Grwpiau, argymhellir y dylid gosod cyflogau Dinesig ar sail lwfans C ar gyfer 2014/15.

**Materion Eraill**

2.7 Fel yn y gorffennol, mae'r Panel wedi nodi:

- Ni chaiff Aelod dderbyn mwy nag un Uwch Gyflog
- Ni chaiff Aelod dderbyn Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig
- Mae'r holl Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

2.8 Yn ogystal, ni all Cynghorydd sy'n derbyn Uwch Gyflogau Band 1 a Band 2 dderbyn cyflog gan Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru y penodwyd ef/hi i wasanaethu arno.

2.9 Yn achos Llywyddion, mae'r Panel wedi penderfynu y byddent yn cael cyflog ar lefel briodol Uwch Gyflog Band 3 fel y penderfynir gan y Cyngor - byddai'r swydd hon yn cyfrif tuag at yr uchafswm. Fodd bynnag, penderfynodd y Cyngor Sir ar 27 Chwefror na fyddai'n bwrw ymlaen gyda'r fath drefniant.

**Uwch Gyflogau Penodol neu Ychwanegol**

2.10 Mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer swyddi datblygu o fewn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Yn ystod yr ymgynghoriad gan y Panel yn 2013, gofynnwyd am fwy o hyblygrwydd megis cynnwys rolau eraill y gellid talu uwch gyflogau ar eu cyfer o fewn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Er enghraifft, gofynnodd nifer o Arweinwyr i gael cynnwys yn y fframwaith yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'swyddi datblygu', gan ddweud y byddent yn cefnogi ac yn cynorthwyo Aelodau'r Pwyllgor Gwaith.

2.11 Daeth y Panel i'r casgliad mai'r ffordd fwyaf priodol o roi sylw i hynny fyddai trwy ganiatáu awdurdodau i wneud cais am Uwch Gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn disgyn o fewn y fframwaith cydnabyddiaeth cyfredol neu na ellid eu cynnwys o fewn y nifer uchaf o Uwch Gyflogau ar gyfer Awdurdod. Cyhoeddwyd canllawiau ynglyn â hyn. Fodd bynnag, bydd yr egwyddorion isod yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad blynyddol:

- Ni chaiff cyfanswm nifer yr Uwch Gyflogau fod yn fwy na 50% o'r Aelodaeth.
- Bydd rhaid i'r Awdurdod cyfan gymeradwyo'r ceisiadau (ni ellir dirprwyo).
- Rhaid cael tystiolaeth glir bod gan y swydd/swyddi gyfrifoldebau ychwanegol fel a ddangosir mewn disgrifiad o'r rôl, y swyddogaeth a chyfnod y swydd.
- Bydd rhaid i bob cais nodi amserlen ar gyfer cynnal adolygiad ffurfiol o'r rôl i'w ystyried gan yr Awdurdod cyfan.

**Dyrannu Uwch Gyflogau ar gyfer 2014/15**

2.12 Argymhellir y dylid talu Uwch Gyflogau ar gyfer y swyddi canlynol yn ystod 2014/15:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd
Dirprwy Arweinydd
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (5)
Cadeiryddion y ddau Bwyllgor Sgriwtini
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf

## 3.0 Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Lleol

Mae'r penderfyniadau diwygiedig ar gyfer 2014/15 (gan gynnwys y rheini a ymgorfforwyd yn adroddiad atodol y Panel (Awst 2013) wedi eu hamlinellu isod:

| **Rhaid i Awdurdodau Lleol dalu'r ffioedd isod i Aelodau Cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio):** | |
|---|---|
| Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau a Phwyllgorau Archwilio | £256 (4 awr a throsodd )<br>£128 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn Cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned | £226 - ffi ddyddiol<br>(4 awr a throsodd)<br>£113 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau, Pwyllgor Sgriwtini Addysg; Pwyllgor Sgriwtini Trosedd ac Anhrefn a'r Pwyllgor Archwilio. | £198 (4 awr a throsodd)<br>£99 (hyd at 4 awr) |

3.1 Gall Aelodau Cyfetholedig hawlio am amser rhesymol a dreuliwyd yn paratoi ar gyfer cyfarfodydd. Mater i'r Swyddog priodol cyn y cyfarfod fydd penderfynu beth fydd yr "amser rhesymol".

3.2 Gall aelodau cyfetholedig hawlio am amser teithio i'r man cyfarfod ac oddi yno (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

3.3 Gall y Swyddog priodol yn yr Awdurdod benderfynu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi ei raglennu am ddiwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwnnw hyd yn oed os bydd y cyfarfod yn dod i ben cyn pen pedair awr.

3.4 Mae'r cyfarfodydd eraill sydd yn gymwys ar gyfer talu ffi amdanynt yn cynnwys gweithgorau a phwyllgorau eraill (gan gynnwys grwpiau tasg a gorffen) neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i Aelodau Cyfetholedig eu mynychu. ( Mae rhag-gyfarfodydd gyda swyddogion, hyfforddiant a chynadleddau eisoes yn gymwys ar gyfer derbyn tâl.)

3.5 Mae'r cwestiwn a ddylid gosod terfyn blynyddol ar gyfer gwaith paratoi gan Aelodau Cyfetholedig (gan gynnwys hyfforddiant am unrhyw gyfarfodydd lle mae disgwyl presenoldeb) wedi cael ystyriaeth. Fodd bynnag, oherwydd rhesymau ymarferol a gweinyddol gofynnir fod hyn yn fater i'r Swyddogion Cyfrifol ei reoli ac i awdurdodi o flaen llaw pob darn o waith/cyfarfod y gellir hawlio amdanynt. Argymhellir na ddylid osod terfyn.

## 4.0 Lwfansau a Thaliadau Eraill

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn manylu ar daliadau a lwfansau eraill sydd yn daladwy fel y pennwyd gan y Panel.

### Ad-dalu costau teithio ar gyfer Busnes Swyddogol

4.1 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid yn 2014/15. Mae cyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn berthnasol.

- 45c y fillitr – hyd at 10,000 o filltiroedd
- 25c y filltir – dros 10,000 o filltiroedd
- 5c fesul teithiwr am bob milltir – ychwanegiad ar gyfer teithwyr
- 24c y filltir – ar gyfer beiciau modur preifat
- 20c y filltir – ar gyfer beiciau

**Lwfansau Cynhaliaeth ar gyfer 2014/15**

4.2 Mae taliadau i ad-dalu Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig am gostau cynhaliaeth yn seiliedig ar y cyfraddau uchaf a nodir isod gan y Panel – bydd angen cyflwyno derbynebau gyda'r hawliadau.

- £28 y diwrnod – lwfans dydd ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast lle nad yw wedi ei gynnwys yn y ffi dros nos
- £150 dros nos yn Llundain
- £95 – dros nos ym mhob man arall
- £25 – dros nos am aros gyda ffrindiau a theulu

4.3 Mae'r Panel wedi cael gwared ar y gyfradd benodol ar gyfer aros dros nos yng Nghaerdydd (£120 yn 2013/14). Mae'r cyfraddau sydd yn daladwy felly yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru.

**Lwfans Gofal**

4.4 Rhaid i'r Cyngor wneud taliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig ar ffurf lwfans gofal i'w digolledu am dreuliau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol hyd at uchafswm o £403 y mis. Nid oes unrhyw newid i'r terfyn hwn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn annog Awdurdodau i ymdrechu i sicrhau bod mwy o bobl yn manteisio ar y cymorth hwn er mwyn hwyluso mwy o amrywiaeth ymysg Aelodau awdurdodau.

4.5 Byddai darpariaeth o'r fath yn arbennig o berthnasol i unigolion mewn sectorau sydd yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ar Awdurdodau, ond a allai gymryd mwy o ran pan godir ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael tuag at gostau gofal.

## 5.0 Argymhellion

5.1 Cadarnhau dyrannu Uwch Gyflogau ar gyfer y rheini sydd yn dal swyddi yn 2014/15 fel sydd wedi ei nodi ym mharagraff 2.12 uchod.

5.2 Cadarnhau y dylid talu ar sail lefel C fel y penderfynir gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer swyddi Pennaeth Dinesig a Dirprwy Bennaeth Dinesig, gan gymryd y baich gwaith a'r cyfrifioldebau a ragwelir i ystyriaeth (paragraff 2.6).

5.3 Na ddylid gosod terfyn blynyddol ar gyfer gwaith paratoi gan Aelodau Cyfetholedig (para 3.5).

5.4 Nodi manylion eraill ynghylch taliadau a lwfansau ar gyfer 2014 /15 a bennwyd gan y Panel ac a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**28/03/14**

Papurau cefndir:- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2014) – http://wales.gov.uk/irpwsub/home/publication/201415/140212-irp-annual-report-1415/?skip=1&lang=cy

Canllawiau - Cais am uwch gyflog penodol tu allan i fframwaith presennol y Panel (Chwefror 2014)
http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/140411-guidance-irp-senior-salary-cy.pdf

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **8 MAI 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2013/14** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **CYMERADWYO'R ADRODDIAD AR GYFER EI GYFLWYNO I'R CYNGOR LLAWN** |

**Rhagarweiniad**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn Bwyllgor statudol o'r Cyngor ac mae arno wyth Aelod etholedig a dau Aelod Lleyg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch pa mor ddigonol yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor, yr amgylchedd rheoli cysylltiedig â'r fframwaith rheoli risg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am wneud gwaith sgriwtini annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol yr Awdurdod (i'r graddau y mae'n effeithio ar ba mor agored yw'r Awdurdod i risgiau ac yn gwanhau'r amgylchedd rheoli), a goruchwylio'r broses adrodd ariannol ac adolygu'r cyfrifon blynyddol a'u cymeradwyo i'r Cyngor.

Cadeirydd y Pwyllgôr Archwilio yw'r Cynghorydd Robert Llewelyn Jones a'r Is-Gadeirydd yw'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes.

**Cyfarfodydd**

Yn y flwyddyn ddinesig, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn llawn pum gwaith ac mae'r ffigyrau presenoldeb ar gyfer y pum cyfarfod ar gael er gwybodaeth yn Atodiad A.

Roedd y cyfarfodydd cyffredin yn dilyn calendr y Pwyllgor Archwilio ac ystyriwyd, ymysg busnes arferol y Pwyllgor: adroddiadau gwaith gan archwilwyr mewnol ac allanol, y datganiad cyfrifon ac adroddiad yr archwiliwr allanol ar y datganiad. Yn ogystal, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gwaith ar Reoli'r Trysorlys a'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys, adroddiad ar y fframwaith a'r gofrestr rheoli risg corfforaethol, adroddiadau gwaith ar y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd a'r Adroddiad Blynyddol ar Atal Twyll a Llygredd. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau penodol ar Brosiect Cyfalaf y Tair Tref, Llywodraethu Gwybodaeth, yr Uned Cynnal Adeiladau, Gwella'r Pwyllgor Archwilio, y Rhaglen Drawsnewid, Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch Data, Ardystio Grantiau a Dychweliadau 2011/12, Datganiad Cyfrifon 2012/13, Barn Archwilio ac Amcangyfrifon Pwysig a Chronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd.

Cwblhawyd y gwaith o baratoi'r Datganiad Cyfrifon wedi ei archwilio ar gyfer 2012-13 erbyn y dyddiad cau, sef 30 Medi 2013 a'u hargymell gan y Pwyllgor i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi rheolwyr gyda mesurau i gryfhau'r swyddogaeth Cyllid ymhellach ac i sicrhau fod modd cynnal y cynnydd presennol yn y dyfodol.

**Datganiad Llywodraethu**

Mabwysiadodd y Pwyllgor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012-13 yn unol â'r gofynion statudol. Cynhyrchwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar ôl ymgynghori'n eang ac adolygu'r trefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Yr un modd â Datganiad 2011-12, roedd Datganiad 2012-13 yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol.

Fodd bynnag, roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn parhau i adlewyrchu rhai gwendidau o ran trefniadau llywodraethu. Cynhyrchwyd Cynllun Gwella er mwyn rhoi sylw i'r gwendidau hyn.

**Y Pwyllgor Archwilio**

Mae'r rôl y Pwyllgor Archwilio wedi gweithio o fewn ei gylch gorchwyl sy'n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl Pwyllgorau Archwilio o ran monitro Rheoli Risg, Llywodraethu a Rheolaeth Fewnol yn y Cyngor.

Ailbenododd y Pwyllgor Archwilio ei ddau Aelod Lleyg yn ystod y flwyddyn ac mae'r Pwyllgor wedi parhau i gael budd o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yr aelodau hyn yn ystod cyfarfodydd. Croesewir yn arbennig yr olwg 'allanol' hon ar faterion y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad o effeithiolrwydd eto eleni gan ddefnyddio rhestr wirio a gafwyd o ganllawiau ymarferol CIPFA 'Audit Committeess: Practical Guidance for Local Authorities' ac mae canlyniad yr hunanasesiad hwn wedi llywio'r rhaglen hyfforddi a'r camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr hunanasesiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2014.

**Hyfforddiant**

Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd hyfforddiant cynefino ar gyfer Aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio a benodwyd ym mis Mai 2013. Mae hyfforddiant pellach wedi cael ei drefnu ar gyfer Aelodau yn ddiweddarach yn 2014 gan gynnwys hyfforddiant ar y Datganiad Cyfrifon; Rheoli'r Trysorlys; a'r fframwaith Rheoli Risg.

**Effeithiolrwydd**

Mae Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn cymryd eu rôl mewn perthynas â llywodraethu a stiwardiaeth o ddifrif. Maent yn cydnabod mai Pwyllgor anwleidyddol yw hwn ac, o'r herwydd, swyddogaeth y Pwyllgor yw dal rheoleiddwyr a swyddogion yn atebol a chyflawni'r dyletswyddau mewn perthynas â rheoleiddio'r fframweithiau rheoli risg, llywodraethu a sicrwydd yn y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd i gael sicrwydd ynghylch meysydd gweithgaredd allweddol ac mae hefyd yn cwblhau hunanasesiad o'i effeithiolrwydd ei hun.

Cynhaliwyd hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor, fel y disgrifiwyd eisoes, ym mis Ionawr 2014 i adolygu cynnydd yn 2013/14 yn erbyn rhestr wirio CIPFA mewn perthynas ag arfer dda ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

Mae trafodaethau yn y gweithdy wedi dwyn sylw at nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau pellach a chynhyrchir cynllun gwella i'w ystyried a'i fonitro'n barhaus gan y Pwyllgor yn 2014/15. Un maes a nodwyd ar gyfer ei wella yn 2014/15 oedd yr angen i godi proffil y Pwyllgor Archwilio a gwneud cydranddeiliaid yn fwy ymwybodol o'r gwaith pwysig y mae'n ei wneud.

## Archwilwyr Allanol

Mae'r Cyngor yn cael ei archwilio'n allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), er bod rhan o'r gwaith, sef agweddau ariannol yr archwiliad a rhywfaint o waith perfformiad, yn cael ei wneud gan PwC ar gyfer yr archwilydd penodedig yn SAC. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan PwC ac mae diweddariad yn cael sylw ym mhob cyfarfod.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn cael diweddariadau rheolaidd gan SAC ar y Rhaglen Waith Perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn diweddariadau gan SAC ar y Rhaglen Asesu Gwelliant gan gynnwys Llythyrau Asesu Gwelliant 1 a 2 yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn agwedd bwysig o fusnes y Pwyllgor i sicrhau bod yr holl adroddiadau allanol yn cael sylw, un ai gan y Pwyllgor Archwilio neu un o'r Pwyllgorau Sgriwtini, a bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Ynghyd â diweddariadau ar y Rhaglen Gwaith Perfformiad, mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn diweddariadau gan PwC ar y gwaith archwilio ariannol sy'n cael ei wneud. Mae diweddariadau eleni wedi cynnwys y cynllun gwaith ac amserlen y gwaith.

## Archwilio Mewnol

Mae gan y Cyngor Dîm Archwilio Mewnol ei hun a reolir dan gontract gyda Baker Tilly Cyf. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2013, cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Strategol a Gweithredol ar gyfer Archwilio Mewnol am 2013/14. Adroddir ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol gan y Rheolwr Archwilio i bob un o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor fel rhan o adroddiadau gwaith Archwilio Mewnol. Mae adroddiadau gwaith hefyd yn cynnwys adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau o ran gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol.

Mae adroddiadau gwaith hefyd yn cynnwys manylion ynghylch adolygiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd ynghyd â lefelau sicrwydd a roddir. Dros y flwyddyn, mae'r rhain yn datblygu i fod yn asesiad o gryfder fframwaith rheolaeth fewnol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r Adroddiadau Cynnydd ar Archwilio Mewnol wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch pob adolygiad a gynhaliwyd, gan gynnwys manylion am y casgliadau allweddol yn codi o'r gwaith a wnaed.

Darperir datganiad cyffredinol ar reolaeth fewnol yn adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio ac yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.

## Rheoli Risg

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n rhaid i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor sy'n gyfrifol am adolygu ac asesu'r trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yn yr Awdurdod. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu gofynion y Mesur Lleol.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Rheoli Risg yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn a bydd Rheoli Risg a derbyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol bellach yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor o 2014/15 ymlaen.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried mai ei rôl allweddol ef o ran y broses Rheoli Risg yw bodloni ei hun ynghylch digonolrwydd y strwythurau, y prosesau a'r cyfrifoldebau ar gyfer nodi a rheoli'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad.

**Atal Twyll**

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn y Polisi Blynyddol ar gyfer Atal Twyll a Llygredd: adroddiad ar gyfer 2012/13 ym mis Medi 2013. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ynghylch cyfranogiad y Cyngor yn y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol yn 2012/13 (rhyddhawyd y canlyniadau yn 2013).

Cafwyd gwybodaeth gefndirol ynghylch gwaith atal twyll a chyflwyniad ar waith y Tîm Atal Twyll Budd-dal yn y gweithdy i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2014. Mae canlyniadau gweithdy mis Ionawr yn cynnwys cam gweithredu i ystyried mabwysiadu'n ffurfiol y canllawiau 'Rheoli'r Risg o Dwyll' fel modd o feincnodi prosesau cyfredol y Cyngor ar gyfer atal twyll a llygredd.

Mae'r adroddiad cynnydd ar Archwilio Mewnol yn cynnwys cyfeiriad at nifer y cyfeiriadau arweiniodd at gynhyrchu adroddiadau ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

**Cynlluniau i'r Dyfodol**

Yn ogystal â'i fusnes rheolaidd, bydd y Cyngor yn parhau gyda'i raglen ddatblygu, a rhoddir siâp ar y rhaglen ddatblygu honno gan yr hunanasesiad o effeithiolrwydd a chanlyniadau'r adolygiad o drefniadau atal twyll y Cyngor. Bydd hyn eto yn cynnwys rhagor o ddigwyddiadau hyfforddi a fydd yn ymwneud â'i weithgareddau yn 2014/15.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu ei rôl mewn perthynas â Rheoli Risg yn ystod 2014/15 a bydd yn edrych ar fabwysiadu dull o fedru asesu'n barhaus ddigonolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer atal twyll a llygredd.

Mae rhaglen waith arfaethedig y Pwyllgor Archwilio ar gael yn Atodiad B.

**Sylwadau'r Cadeirydd**

Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb a'u cyfraniad at waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r gweithwyr hynny sydd wedi mynychu a chyfrannu cymaint.

Hoffai'r Cadeirydd achub ar y cyfle i atgoffa'r Cyngor o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor sy'n fwy perthnasol hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni o ran sicrhau fod y Cyngor yn cael ei redeg yn gadarn ac y ceir gwerth am arian.

Mae'r Pwyllgor yn ymrwymo i barhau i weithio gyda gweithwyr y Cyngor i gefnogi gwelliant parhaus yng ngweithgareddau'r Cyngor yn 2014/15.

**Y CYNGHORYDD ROBERT LLEWELYN JONES**
**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** **15 EBRILL 2014**

**ATODIAD A**

## PWYLLGOR ARCHWILIO – DADANSODDIAD O BRESENOLDEB RHEOLAIDD I GYFARFODYDD – 2013/14

| Aelodau | % Presenoldeb Cyfarfodydd Rhestredig | Dyddiad y Cyfarfod | Presenoldeb | Dyddiad y Cyfarfod | Presenoldeb | Dyddiad y Cyfarfod | Presenoldeb | Dyddiad y Cyfarfod | Presenoldeb | Dyddiad y Cyfarfod | Presenoldeb | Nifer Cyfarfodydd a Fynnychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyng. Robert Llewelyn Jones (Chair) | 100% | 23/07/2013 | Ia | 24/09/2013 | Ia | 11/12/2013 | Ia | 04/02/2014 | Ia | 10/04/2014 | Ia | 5 |
| Cyng. Trefor Lloyd Hughes (Vice Chair) | 80% | 23/07/2013 | Ia | 24/09/2013 | Ia | 11/12/2013 | Ymddiheuriad | 04/02/2014 | Ia | 10/04/2014 | Ia | 4 |
| Cyng. Dafydd Rhys Thomas | 60% | 23/07/2013 | Ia | 24/09/2013 | Ia | 11/12/2013 | Ia | 04/02/2014 | Ymddiheuriad | 10/04/2014 | Ymddiheuriad | 3 |
| Cyng. Jim Evans | 60% | 23/07/2013 | Ia | 24/09/2013 | Na | 11/12/2013 | Ia | 04/02/2014 | Ia | 10/04/2014 | Ymddiheuriad | 3 |
| Cyng. John Griffiths | 100% | 23/07/2013 | Ia | 24/09/2013 | Ia | 11/12/2013 | Ia | 04/02/2014 | Ia | 10/04/2014 | Ia | 5 |
| Cyng. Raymond Jones | 20% | 23/07/2013 | Na | 24/09/2013 | Ymddiheuriad | 11/12/2013 | Na | 04/02/2014 | Ia | 10/04/2014 | Na | 1 |
| Cyng. Richard Barker | 80% | 23/07/2013 | Ia | 24/09/2013 | Ia | 11/12/2013 | Ia | 04/02/2014 | Ymddiheuriad | 10/04/2014 | Ia | 4 |
| Cyng. Richard Owain Jones | 67% | | | | | 11/12/2013 | Ia | 04/02/2014 | Ia | 10/04/2014 | Ymddiheuriad | 2 |
| Mrs Sharon Warnes | 100% | 23/07/2013 | Ia | 24/09/2013 | Ia | 11/12/2013 | Ia | 04/02/2014 | Ia | 10/04/2014 | Ia | 5 |
| Cyng. Vaughan Hughes | 0% | 23/07/2013 | Ymddiheuriad | 24/09/2013 | Na | 11/12/2013 | Na | 04/02/2014 | Na | 10/04/2014 | Ymddiheuriad | 0 |
| Cyng. Peter Rogers | 100% | 23/07/2013 | Ymddiheuriad | 24/09/2013 | Ia | | | | | | | 2 |

**Ffigyrau ar 15-04-14**

**ATODIAD B**

# PWYLLGOR ARCHWILIO – CALENDR AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2014/15

| | CYFRIFEG | ARCHWILIO MEWNOL | ARCHWILIO ALLANOL | RHEOLI TRYSORLYS | RHEOLI RISG | LLYWODRAETHU | ARALL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CHWEFROR | | | Adroddiad Gwaith | Ystyried Strategaeth RhT 2014/15 | | Pwyllgor Archwilio – Cylch Gorchwyl | Briffio DPW ar fframwaith y Rhaglen Drawsnewid (Cofnodion 11-12-13) |
| Canol/Hwyr EBRILL | | Adroddiad blynyddol AM am y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben<br><br>Ystyried a mabwysiadu'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn a'r strategaeth ar gyfer y tymor canol<br><br>Adolygu'r Siarter a'r Protocol Archwilio Mewnol | Ystyried a mabwysiadu cynllun ar gyfer y flwyddyn yn cychwyn<br><br>Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch3 | Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg | Diweddariad ar Lywodraethu a Sicrwydd<br><br>Adolygu Cylch Gorchwyl | Adolygiad blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Threfniadau Atal Twyll<br><br>Adolygu Fframwaith Llywodraethu<br><br>Cynllun Hyfforddiant Blynyddol i Aelodau<br><br>Cymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Cyngor<br><br>CIVICA – ôl-weithredu (cofnodion 11/12/13) |
| GORFFENNAF | Adolygu'r Datganiad Cyfrifon | Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys<br><br>Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch1 | Cofrestr Risg Gorfforaethol<br><br>Adroddiad y DBW ar Weithredu Rheoli Risg (Cofnodion 11/12/13) | Diweddariad ar Lywodraethu a Sicrwydd;<br>Ystyried y Datganiad Llywodraethu<br>Adolygu'r Côd Llywodraethu<br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch | Adroddiad Blynyddol – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd<br><br>Adroddiad Cloi Prosiect y Tair Tref (Cofnodion 11/12/13) |
| MEDI | Argymell y Datganiad Cyfrifon ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cyngor (dyddiad cau 30 Medi) | Adroddiad Cynnydd | Derbyn adroddiad ar y cyfrifon gan y rheini sy'n gyfrifol am Lywodraethu<br><br>Adroddiad Cynnydd | | Cofrestr Risg Gorfforaethol | Diweddariad ar Lywodraethu a Sicrwydd<br><br>Mabwysiadu'r Datganiad Llywodraethu | Arolygiad o gofrestrau a datganiadau<br><br>Adroddiad Blynyddol ar Atal Twyll a Llygredd |
| RHAGFYR | | Adroddiad Cynnydd | Derbyn llythyr blynyddol ar yr archwiliad o'r flwyddyn sydd newydd ddod i ben<br><br>Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch2<br><br>Sgriwtineiddio'r adroddiad canol blwyddyn a pharatoi ar gyfer y flwyddyn nesaf | Cofrestr Risg Gorfforaethol | Diweddariad ar Lywodraethu a Sicrwydd | |

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 08 Mai 2014 @ 2pm |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2013-14 a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor ar gyfer 2014-15 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddiaeth/Swyddog Monitro (est 2568) |

<u>Rhagarweiniad</u>

(i) Mae'r Pwyllgor Safonau'n bwyllgor statudol ac arno 9 aelod (2 Gynghorydd Sir, 5 Aelod Annibynnol a 2 Aelod o Gynghorau Cymuned).

(ii) Penodwyd y Pwyllgor cyfredol am gyfnod o 4 blynedd hyd at 17 Rhagfyr 2015.

(iii) Mae gan y Pwyllgor Safonau'r rôl a'r swyddogaethau isod (ymysg pethau eraill):-

(a) hyrwyddo a chynnal safon uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr;
(b) cynorthwyo cynghorwyr i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau;
(c) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr;
(d) rhoi caniatadau arbennig;
(e) delio gydag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro neu adroddiad a gyfeiriwyd ati gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(iv) Mae copi o Gyfansoddiad llawn y Pwyllgor Safonau ar gael ar gais gan y Swyddog Monitro.

<u>Sylwadau Cyffredinol</u>

1. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2013, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2013/14. Yn y Rhaglen wreiddiol, nodwyd meysydd arfaethedig o ran gwaith, amserlen ac adnoddau. Gweler y ddogfen hon yn **ATODIAD A** yr adroddiad hwn ac mae wedi cael ei diweddaru i gynnwys y gwaith sydd eisoes wedi cael ei gyflawni yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt.

2. Cyhoeddodd yr Archwiliwr Cyffredinol Adroddiad ym mis Gorffennaf 2009 a oedd, ymysg materion eraill, yn argymell y dylai'r Pwyllgor Safonau gymryd rôl fwy gweithredol o ran codi safon ymddygiad ymysg Aelodau yn hytrach na chyfyngu ei hun i gyflawni gofynion statudol llym. I bob pwrpas, mwy o waith ataliol a llai o waith unioni.

3. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, dyluniwyd y Rhaglen gyfredol a'r rhai diweddaraf, i gefnogi'r Cyngor i sicrhau adferiad, gyda phwyslais ar hunanreoleiddio drwy ddatblygu Aelodau a bod y Pwyllgor Safonau yn darparu cyngor / canllawiau ynghylch datrys anghydfodau lle mae hynny'n bosibl ac yn briodol a hynny o fewn y Cyngor yn hytrach na thrwy rheoleiddwyr allanol.

4. Yr elfen bwysicaf ar gyfer cyflawni'r nod hwn oedd sefydlu Cynllun Datblygu Blynyddol cynhwysfawr i Aelodau, wedi ei deilwrio'n benodol i gwrdd ag anghenion y Cyngor a'i Aelodau. Roedd y Gweithgor Datblygu Aelodau (GDA) yn allweddol yn hyn o beth, ac roedd yn cynnwys Aelodau, Swyddogion a chynrychiolaeth o'r Pwyllgor Safonau. Yn ogystal, roedd y GDA yn adrodd ar gynnydd a chanlyniadau i'r Pwyllgor Safonau bob chwarter.

5. Roedd y GDA hefyd yn gyfrifol am ennill statws Siarter Aelodau a gafodd gefnogaeth dda ac sy'n parhau i fod dan ofal y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru erbyn hyn wedi cyflwyno i'r Cyngor, Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Mae'r siarter yn darparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio, hunanasesu, gweithredu ac adolygiad lleol yn ogystal â rhoi cyfleon i gymharu gydag awdurdodau eraill a rhannu arferion da. Hoffem ddiolch i Huw Jones (Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd) a Miriam Williams (Uwch Swyddog Datblygu AD) am wneud gwaith clodwiw yn cynorthwyo'r Cyngor i ennill statws siarter.

<u>Sylwadau'r Cadeirydd</u>

Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf eleni ar feddwl yn strategol i wella safonau a rhannu gwybodaeth gyda chynghorwyr a chynghorau cymuned. Treuliodd y Pwyllgor lai o amser o lawer na'r blynyddoedd diwethaf yn cynnal gwrandawiadau'n codi o honiadau o dorri'r côd ymddygiad ac yn mynychu cyfarfodydd/sesiynau cyfryngu oherwydd methiant o fewn y cyngor i gwrdd â safonau. Rwy'n ystyried hyn fel peth cadarnhaol iawn. Yn y ddwy flynedd a hanner yr ydym wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, rydym oll wedi tystio i welliant anferthol mewn safonau yn y cyngor gyda hynny'n naturiol yn arwain at ostyngiad yn y problemau o ran ymddygiad a'r cwynion sy'n cael eu cyflwyno. Hoffwn ddiolch i'r swyddogion a'r cynghorwyr am eu gwaith caled a'u hymroddiad i sicrhau parhad y safonau uchel yn y cyngor yn dilyn yr ymyrraeth a gobeithio y bydd hyn yn parhau.

Byddwn yn canolbwyntio’n bennaf eleni ar gynnal safonau yn y cyngor a helpu ein cynghorau cymuned i wella eu safonau oherwydd mae rhai problemau’n parhau gyda rhai cynghorau cymuned ar yr ynys ac ymddengys fod y problemau hynny’n codi oherwydd materion sy’n ymwneud â chamweinyddu. Mae hwn yn fater yr ydym yn gobeithio rhoi sylw iddo gyda chymorth hyfforddiant pellach eleni.

Mae’r Pwyllgor yn edrych ymlaen at barhau i adolygu a chodi safonau yn y Cyngor yn 2014/2015.

**ARGYMHELLIAD:-**

1. Nodi’r Rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Ebrill 2013 a Mai 2014 - **ATODIAD A.**

2. Cymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2014/15 fel yr amlinellir yn **ATODIAD B.**

ATODIAD A

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2013 I EBRILL 2014

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | **06/12/2013** Rhoes y Pwyllgor Safonau sylw i adroddiad gan yr Ombwdsmon yn gofyn am farn leol. |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | **04/09/2013** Panel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau. Caniatawyd un cais. |
| 3. | Cymryd swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | Dim angen gweithredu |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.4(e) y Côd; gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. | | | Darparwyd hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod Medi 2013 gyda chyfradd bresenoldeb o 43.5%.<br>Hyfforddiant pellach ar gyfer yr hydref 2014 wrthi'n cael ei drefnu ar hyn o bryd.<br>Hyfforddiant i aelodau ar y fframwaith moesegol 15/05/2013 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | Erbyn diwedd Ebrill 2013 | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o'r cofrestrau gan y Pwyllgor Safonau yn ystod Chwefror 2014<br>Trafodwyd y canfyddiadau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12/03/2014<br>Cylchredwyd canlyniadau cyffredinol yr adolygiad i'r holl aelodau ar 17/04/2014. |
| 6. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | Erbyn diwedd Ebrill 2013 | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | Canfu'r adolygiad nad oedd gwybodaeth ar gael ar-lein o hyd. Mae hyn bellach wedi'i gywiro. |
| 7. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | Fel a phryd y derbynnir cais | | Trafodwyd y newidiadau isod i'r Cyfansoddiad gan y Pwyllgor ar 12/06/2013:-<br>(i) Protocol Cyfryngau Cymdeithasol<br>(ii) Rheolau Gweithdrefn Cynllunio<br>(iii) Protocol Hunanreoleiddio<br>(iv) Polisi GDG newydd |
| 8. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | Ymgynghori ynghylch adroddiad atodol drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 12/09/2013 a 12/12/2013<br>Parhau i ystyried y Prosiect Rheoli Cwynion – Adolygiad Archwilio (12/12/2013) |
| 9. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r | | | Cytunwyd â'r argymhelliad i'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | | | Pwyllgor Safonau gael disgrifiadau swydd y cytunwyd arnynt ac y dylai'r aelodau fynd drwy broses adolygu perfformiad (12/03/2014) |
| 10 | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | | | 8 Mai 2014 |
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br><br>- Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt<br>- o awdurdodau perthnasol eraill<br>- Panel Dyfarnu Cymru<br><br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan | | | Adolygwyd penderfyniadau a gyhoeddwyd gan yr holl Bwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru ar:-<br>12/06/2013<br>12/09/2013<br>12/12/2013<br>12/03/2014<br>Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru:-<br>20/05/2013<br>21/10/2013<br>29/04/2014 |
| 12.<br>. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu ffeilio gydag OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | | | Trafodaeth barhaus yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau. |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion | | | Cyfarfu'r Cadeirydd ag Arweinyddion |

Tudalen 58

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | | | y Grwpiau ar 3 gwahanol achlysur. |
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br>1. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>2. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>3. Safonau ymddygiad Aelodau | | | Parhaus<br>12/06/2013<br>12/09/2013<br>12/12/2013<br>12/03/2014 |

ATODIAD B

**RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2014 I EBRILL 2015**

Tudalen 60

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | - Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | - Swyddog Monitro<br>- Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | - Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | - Swyddog Monitro<br>- Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 3. | Cymryd swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | - Fel a phryd y derbynnir cais | - Swyddog Monitro<br>- Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.4(e) y Côd; gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. | | - Swyddog Monitro<br>- Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 5. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os | - Erbyn diwedd Ebrill 2015 | - Swyddog Monitro<br>- Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yw hynny'n briodol. | | | |
| 6. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | Erbyn diwedd Ebrill 2015 | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 7. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 8. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 9. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 10 | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | Mai 2015 | Cadeirydd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br><br>- Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt<br>- o awdurdodau perthnasol<br>- Panel Dyfarnu Cymru<br><br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan<br>- Cael eu hadolygu'n unol â chynllun rheoli perfformiad sy'n debyg i'r cynllun a ddefnyddir ar gyfer aelodau etholedig. | . Fel a phryd y derbynnir cais | . Swyddog Monitro<br>. Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 12.<br>. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu ffeilio gydag OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | . Fel a phryd y derbynnir cais | . Swyddog Monitro<br>. Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | . Fel a phryd y derbynnir cais | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br>4. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>5. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>6. Safonau ymddygiad Aelodau | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 15. | Amrywiol<br><br>Awgrymu y dylai aelodau etholedig fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'r pwyllgorau y maent yn gwasanaethu arnynt a'u swyddogaethau penodol. | | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **Y CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **8 MAI 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU SGRIWTINI 2013-2014** |
| **SWYDDOG CYSWLLT :** | **Bev Symonds- Rheolwr Sgriwtini** |
| **ARGYMHELLIAD:** | **1. Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2013-2014.**<br>**2. Penodi Aelod fel "Eiriolydd Sgriwtini" am y cyfnod Mai 2014 i Mai 2015.** |

## 1.0 ARGYMHELLION

1.1 Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2013-2014.

1.2 Penodi Aelod "Eiriolydd Sgriwtini" am y cyfnod Mai 2014 i Mai 2015.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Sgriwtini 2013-2014 yn cynnwys y gwaith a wnaed gan y ddau Pwyllgor Sgriwtini rhwng Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 23 Mai 2013 ac 8 Mai 2014. Drwy gydol y cyfnod yma mae'r Pwyllgorau Sgriwtini wedi bod yn ddigon ffodus i gael cyfraniadau gan amryfal aelodau a swyddogion.

2.2 Arweiniwyd y gwaith yn ystod y cyfnod hwn gan Gadeiryddion y ddau Bwyllgor Sgriwtini ac mae manylion wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Sgriwtini 2013-2014 sy'n ynghlwm.

2.3 Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor llawn cynt , penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Meirion Jones i wasanaethu fel yr Eiriolydd Sgriwtini am y cyfnod Mai 2013 i Mai 2014. Nid oes tâl ar gyfer y rôl Eiriolydd Sgriwtini a gall ef/hi fod yn Aelod sydd ar y Pwyllgor Gwaith neu'n Aelod arall. Rôl yr Eiriolydd Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo'r swyddogaeth Sgriwtini y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor
- Cefnogi datblygiad parhaus Sgriwtini yn y Cyngor.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2013-2014 |



# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU SGRIWTINI 2013/2014



# CYNNWYS


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 3 |
| 1. | Beth yw Trosolwg a Sgriwtini | 4 |
| 2. | Perfformiad Sgriwtini | 5 |
| 3. | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | 6 |
| 4. | Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2013-14 | 6 |
| 5. | Rhaglen Waith Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (2013-14) | 7 |
| 6. | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (2013-14) | 12 |
| 7. | Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (2013-14) | 12 |
| 8. | Rhaglen Gwaith Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (2013-14) | 13 |
| 9. | Cyfarfodydd Briffio Pwyllgorau Sgriwtini | 18 |
| 10. | Prosiect Gwella Sgriwtini Swyddfa Archwilio Cymru Wales | 19 |
| 11. | Rhydwaith Sgriwtini | 20 |
| 12. | Ymgysylltiad Sgriwtini | 22 |

# Rhagair

**Y Cynghorydd R Meirion Jones (Eiriolwr Sgriwtini 2013-14)**



Gyda'r etholiadau ym mis Mai 2013, gwelwyd sefydlu strwythur newydd o ran y wardiau etholiadol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a llai o aelodau, 30 yn lle 40, gyda 2 neu 3 aelod ym mhob ward. Dychwelwyd 18 o'r aelodau cyfredol a 12 o rai newydd. Yr un modd, sefydlwyd strwythur newydd ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini gyda dau bwyllgor sgriwtini, sef y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Yn yr adroddiad hwn, ceir trosolwg o flwyddyn gyntaf y 2 Bwyllgor Sgriwtini ac mae'n dwyn sylw at yr hyn a gyflawnwyd gan yr aelodau etholedig wrth iddynt ymgymryd â'u rôl sgriwtini. Mae'r Cyngor newydd wedi bod yn ymwybodol o hanes diweddar y Cyngor gydag ymyrraeth Llywodraeth Cymru a phenodi Comisiynwyr i gymryd drosodd swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith. Daeth yr ymyrraeth i ben yn 2012 ac ailsefydlwyd swyddogaethau llawn y Cyngor gan gynnwys sgriwtini.

Cyn mis Mai 2013, roedd 5 Pwyllgor Sgriwtini a 4 o Swyddogion Cymorth Sgriwtini. Bellach, mae 2 Bwyllgor Sgriwtini a 2 Swyddog. Yn anorfod ac er gwaethaf ymrwymiad ac ymroddiad yr Aelodau Sgriwtini a'r staff, bu'n rhaid lleihau'r baich gwaith. Serch hynny, trwy weithio gyda'n gilydd mewn tîm, bu modd ymgymryd â'r dyletswyddau Sgriwtini yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae Sgriwtini yn datblygu perthynas 'cyfaill beirniadol' adeiladol gyda'r Pwyllgor Gwaith.

Chwaraeodd y Pwyllgorau Sgriwtini ran yn y broses flynyddol o bennu'r gyllideb. Gyda'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, bu'r Pwyllgorau Sgriwtini'n herio cynigion ac yn ychwanegu gwerth at y broses. Buont hefyd yn ystyried y broses a'r canlyniadau. Bydd nifer o'r materion a godwyd yn cael eu hystyried gan y Panel a sefydlwyd i ystyried y broses gyllidebol.

Bu'n flwyddyn heriol gyda nifer o heriau ariannol. Mae'n bwysig fod y Cyngor yn parhau i ymateb i'r heriau ac, o safbwynt Sgriwtini, ei fod yn parhau i edrych ar wella gwasanaethau ac yn cyfrannu at ddatblygu polisïau. O'i brofiadau ers mis Mai, mae Sgriwtini'n trefnu i gael mwy o gyfarfodydd a chanolbwyntio ar y materion pwysig yn fanylach ac yn ddyfnach.

## 1. BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI

1.1 Mae Pwyllgorau Sgriwtini yn rhan o’r ffordd y mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gweithredu. Ynghyd â sefydlu Pwyllgor Gwaith a chanddo bwerau i wneud penderfyniadau, bu’n rhaid, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, sefydlu un neu ragor o Bwyllgorau Sgriwtini i ddal y sawl sy’n gwneud penderfyniadau yn atebol, i yrru gwelliant ac i chwarae rôl o ran cynorthwyo i ddatblygu ac adolygu polisi.

1.2 Yn Cyngor Sir Ynys Môn bu dau Pwyllgor Sgriwtini yn ymwneud â’r swyddogaeth sgriwtineiddio yn 2013-2014.

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Paretneriaeth ac Adfywio

1.3 Nod y Pwyllgorau Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo dull agored a thryloyw o wneud penderfyniadau a dal y sawl sy’n gwneud penderfyniadau yn atebol mewn modd adeiladol.
- Cefnogi’r Cyngor i wireddu ei weledigaeth ar gyfer y Cyngor ynghyd â’i nodau a’i flaenoriaethau strategol.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus, arferion gorau ac arloesed o ran y gwasanaethau, y swyddogaethau a’r polisïau y mae’r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu y mae ganddo ddylanwad drostynt.*

1.4 Gall y Pwyllgor Sgriwtini wneud ei waith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol.
- Ystyried pwnc dros gyfnod hwy o amser trwy sefydlu Panel Adolygiad Sgriwtini.
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes penodol.
- Ymweld â safleoedd.

## 3. PERFFORMIAD SGRIWTINI

2.1 Mae Adroddiad Blynyddol yn gofnod o stiwardiaeth am gyfnod penodol ac yn canolbwyntio ar yr hyn y llwyddwyd i'w wneud a'r hyn y mae angen ei wneud. Mae Sgriwtini wedi cytuno i symud ymlaen mewn dull modern a cynorthwyo gyda gweithrediad y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP). I'r perwyl hwn, mae gan Sgriwtini gyfres o ddangosyddion perfformiad y mae'n gwerthuso ei hun yn ei herbyn:

| Teitl y dangosydd ( 2013-2014) | **Targed** **(ch) – Chwarterol** (B) – Blynyddol | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % presenoldeb Aelodau Pwyllgor mewn Pwyllgorau Sgriwtini | 80% (Ch) | 85% | 72.50 % ⇩ | 89% ⇧ | 76% ⇩ | 81% |
| % argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini a gymeradwywyd gan y Bwrdd Comisiynwyr. | 90% (Ch) | 100% | 100% ⬄ | 100% ⬄ | ⬄ | 100% |
| Nifer yr eitemau " ymgynghorol " ar raglenni | 5 (B) | 0 | 2 ⇧ | 1 ⇩ | 3 ⇧ | 5 |
| Nifer o eitemau " Monitro" ae raglenni | 5 (B) | 1 | 8 ⇧ | 5 ⇩ | 4 ⇩ | 18 |
| Nifer yr eitemau " Ymchwilio" ar raglenni | 5 (B) | 0 | 5 ⇧ | 8 ⇩ | 1 ⇩ | 14 |
| Nifer yr eitemau " Cyn Sgriwtini" ar raglenni | 5 (B) | 2 | 5 ⇧ | 3 ⇩ | 4 ⇧ | 14 |
| Nifer yr eitemau " Datblygu Aelodau" ar raglenni | 5 (B) | 0 | 0 ⬄ | 0 ⬄ | 0 ⬄ | 0 |
| Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini wedi eu fyflwyno i'r Cyngor Llawn phob mis Mai. | 1 (B) | Yes | N/A | N/A | N/A | 1 |

## 3. Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad /darpariad yr holl wasanaethau,  sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol , Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol  neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol.

.

## 4, Aelodaeth y Pwyllgor  2013-14

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol /Grwp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. R Meirion Jones (Cadeirydd) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Jeff Evans | Ynys Gybi | Independent |
|  | Cyng. Victor Hughes | Bro Rhosyr | Annibynol |
|  | Cyng. Ann Griffith | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |
|  | Cyng Peter Rogers | Bro Aberffraw | Heb Ymuno |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol /Grwp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Gwilym Jones (Is-Gadeirydd) | Llifon | Annibynol |
|  | Cyng. Jim Evans | Aethwy | Annibynol |
|  | Cyng. Lewis Davies | Seiriol | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Llinos Medi Huws | Talybolion | Plaid Cymru |
| 1 Sedd Wag | | | |

## 5. Rhaglen Gwaith y Pwyllgor (2013/14)

Cynhaliwyd 7 cyfarfod o Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol  yn ystôd 2013-2014.
.

| Rhaglen Gwaith Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2013/14 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad Pwyllgor** | **Eitem i'w Ystyriad** | **Allbwn/Argymhelliad** |
| **29 Gorffennaf 2013** | Blaen Rhaglen Gwaith | Penderfynwyd derbyn y rhaglen waith fel yr oedd i'w gweld yn Atodiad 1 ac i nodi ei chynnwys ond gan ychwanegu eitem ar effeithiau gweithredu'r rhan o'r rhaglen diwygio lles sy'n cael ei alw'n dreth ystafelloedd gwely.<br>CAMAU GWEITHREDU'N CODI:<br>- Y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd i raglennu'r eitem ychwanegol sef y dreth "ystafell wely" i raglen waith y Pwyllgor.<br>- Y Cynghorydd Peter Rogers fel y cynrychiolydd sgriwtini ar y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth i friffio'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gynnydd gyda'r trafodaethau yng nghyfarfod mis Medi y Bwrdd ar y rhaglen i drawsnewid gwasanaethau gofal preswyl.<br>- Y Cyfarwyddwr Cymuned i roddi diweddariad yn ffurfiol i'r Pwyllgor hwn ar y rhaglen ar gyfer trawsffurfio gwasanaethau gofal preswyl unwaith y bydd y broses ymgynghori gyda phreswylwyr wedi ei chwblhau. |
| | Enwebiadau Pwyllgor 2013/14 | Penderfynwyd -<br>- Penodi'r Cynghorydd Ann Griffith i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol<br>- Penodi'r Cynghorydd Peter Rogers i wasanaethu ar y Bwrdd prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer<br>-Penodi'r Cynghorydd Victor Hughes i wasanaethu ar y Bwrdd Prosiect Gweithio'n Gallach<br>- Penodi'r Cynghorydd R.Meirion Jones i wasanaethu ar y Grŵp Tasg Iaith Gymraeg<br>· Gan na chafwyd enwebiadau yn y cyfarfod, awdurdodwyd y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i gymryd camau priodol i drefnu cynrychiolaeth ar y Gweithgor Polisi Gosod Tai.<br>CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gysylltu gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i drefnu cynrychiolaeth ar y Gweithgor Polisi Gosod Tai |
| | Cyngor Pobl Hŷn Ynys Môn | Penderfynwyd –<br>-Nodi'r ohebiaeth a anfonwyd gan Gyngor Pobl Hŷn Ynys Môn<br>-Sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini o'r Pwyllgor hwn i ymchwilio i faterion yn ymwneud |

| | | |
|---|---|---|
| | | â chostau gwresogi yn nhai gwarchod y Cyngor<br>- I enwebu'r canlynol i wasanaethu ar y Panel Canlyniad Sgriwtini: Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Raymond Jones a Llinos Huws gyda'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd i wasanaethu fel Cadeirydd y Panel.<br>CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gysylltu gyda'r Cadeirydd i gytuno ac I ddiffinio cylch gorchwyl i'r Panel Canlyniad Sgriwtini ac i wneud trefniadau ar gyfer cyfarfod cyntaf. |
| | Materion Ariannol – Tybiaethau Cyllidebol ac Amserlen Cyllideb 2014/15 | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'i gynnwys |
| | Materion Perfformiad – Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 1 2013-14 | Penderfynwyd nodi'r cerdyn sgorio corfforaethol a'r wybodaeth ynddo.<br>CAMAU GWEITHREDU'N CODI:<br>-Y Cyfarwyddwr Cymuned i adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael a meysydd gwasanaeth lle mae statws CAG yn goch.<br>-Y Cyfarwyddwr Cymuned i ddarparu cerdyn sgorio gwasanaeth ochr yn ochr a'r cerdyn sgorio corfforaethol i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.<br>-Y Dadansoddydd Perfformiad (AW) i gysylltu gyda'r Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes ynglyn ag ymarferoldeb y gwasanaethau yn darparu mwy o wybodaeth gefndirol yn yr adran Nodiadau ar y sgôr gerdyn corfforaethol. |
| | Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2012/13 i Gyngor Sir Ynys Môn | Penderfynwyd gohirio ystyried llythyr blynyddol yr Ombwdsmon hyd gyfarfod nesaf y Pwyllgor.<br>CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Rheolwr Sgriwtini i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer |
| | Trefniadau Diogelu ar Gyfer Oedolion Bregus | Penderfynwyd nodi'r adroddiad |
| | Adroddiad Monitro Blynyddol 2012/13 i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg | Penderfynwyd nodi'r adroddiad |
| | Diweddariad Gan y Cadeirydd ac Adborth gan Gynrychiolwyr Sgriwtini | CAMAU GWEITHREDU: Y Cadeirydd i gysylltu gyda'r Rheolwr Sgriwtini I benderfynu ar ffurf ac amseriad yr atborth i'r Pwyllgor gan gynrychiolwyr Sgriwtini ar y Grwpiau a'r Paneli a grybwyllwyd uchod. |
| | Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2012/13 ar Gyfer Cyngor Sir Ynys Môn | It was resolved to accept the report and to note its contents. |
| **28 Hydref** | Materion Cyllidol - Adroddiad Monitro'r Cyllideb Gyfalal Chwarter 1 2013/14 | Penderfynwyd nodi sefyllfa'r Gyllideb Gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 1.<br>DIM CAMAU GWEITHREDU YN CODI**.** |

| | | |
|---|---|---|
| **2013** | Materion Cyllidol - Adroddiad Monitro'r Cyllideb Refeniw chwarter 1 2013/14 | Penderfynwyd nodi sefyllfa'r Gyllideb Refeniw ar ddiwedd Chwarter 1.<br>CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Cyfarwyddwr Cymuned i drefnu sesiwn briffio gydag Aelodau etholedig Caergybi yng nghyswllt datblygiadau gyda'r Rhaglen Trawsnewid Gofal Cymdeithasol yn yr ardal. |
| | Ffioedd Gwasanaethau i Denantiaid a Lesddeiliaid | Penderfynwyd –<br>- Nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion o Gam 1 y prosiect fel oedd i'w weld yn yr adroddiad.<br>-Nodi'r sylwadau a wnaed o ran symud ymlaen gyda'r prosiect a'u cyfeirio hwy i'r Pwyllgor Gwaith.<br>CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) i adrodd ar yr atborth sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith. |
| | Cerdyn Sgorfwrdd Chwarter 2 2013/14 a Materion Perthynol | Penderfynwyd nodi'r sefyllfa fel oedd yn cael ei adlewyrchu gan y Cerdyn<br>Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2.<br>CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes i adrodd ar yr atborth sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith.. |
| | Cynllun Gwella Blynyddol 2013/14 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Gofalwyr Anffurfiol Oedolion - Bwriadau Comisiynu Lleol a Blaenoriaethau | Penderfynwyd :<br>-Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r weledigaeth oedd yn sylfaenol i'r ddarpariaeth ar gyfer Gofalwyr Anffurfiol; y blaenoriaethau strategol arfaethedig i Fôn a'r Cynllun Gwella amlinellol am y tymor canol.<br>- I nodi'r perfformiad lleol yn erbyn y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol. |
| | Cynllun Gweithredu ôl-arolwg y Gwasanaeth Addysg | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad cynnydd a nodi ei gynnwys. |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Penderfynwyd gohirio ystyried y mater hwn hyd y cyfarfod nesaf.. |
| | Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru | Nodi y wybodaeth |
| **15 Tachwedd 2013** | Capasiti ac Adnoddau ar Gyfer Newid | Penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith –<br>Bod y swyddi Rheolwr Prosiect Moderneiddio Addysg a'r Rheolwr Trawsnewid Strategol Gofal Cymdeithasol yn cael eu cymeradwyo am gyfnod o 3 blynedd yn amodol ar dderbyn adolygiad boddhaol o gynnydd a deilliannau ar ddiwedd 18 mis.<br>- Bod swyddi'r Rheolwr Trawsnewid Asedau a'r Swyddog Llywodraethu a Busnes yn cael ei gymeradwyo am gyfnod o 18 mis yn unol a'r cynnig.<br>-Yn amodol ar sicrhau'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol, bod y penodiadau'n cael eu gwneud i'r pedair swydd yn seiliedig ar secondiad mewnol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | CAMAU GWEITHREDU'N CODI : Y Prif Weithredwr ac/neu'r Dirprwy Brif Weithredwr i ddarparu gwybodaeth gymharol i'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn a'r capasiti mewn awdurdodau eraill yn y pedwar maes yr oedd y cynigion yn ymwneud a hwy (gyda chopi i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio). |
| **9 Rhagfyr 2013** | Diweddariad y Cadeiryd | Nodwyd y wybodaeth gan y Pwyllgor. |
| | Materion Ariannol - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf 2013/14 | Penderfynwyd nodi'r adroddiad. |
| | Materion Ariannol - adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2013/14 | Penderfynwyd nodi'r adroddiad. |
| | Strategaeth Feicio | Penderfynwyd argymell y Strategaeth Feicio i'r Pwyllgor Gwaith gyda'r sylwadau a wnaed i'w defnyddio fel dogfen arweiniol ar gyfer datblygu cyfleusterau beicio ymMôn. |
| | Rhaglen Gwaith | Penderfynwyd nodi'r sefyllfa gyfredol yng nghyswllt y Rhaglen Waith. |
| **14 Ionawr 2014** | Diweddariad y Cadeirydd | Gohiriwyd cael diweddariad gan y Cadeirydd ar weithgareddau hyd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. |
| | Ymgynghoriad ar Gyllideb 2014-15 | Pendefynwyd –<br>-Nodi cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb y Cyngor 2014/15.<br>-Gyda chaniatad Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio, y dylai'r cynigion i arbed mewn perthynas â'r Gwasanaethau Hamdden a'r Gyfadran Cynaliadwyaeth gael eu cynnwys yn nhrafodaethau'r Pwyllgor hwnnw ar y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr,<br>-Bod cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cael ei alw i dderbyn adroddiad yn ôl gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Sgriwtini ar y trafodaethau o'r cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio o safbwynt y cynigion i arbed yn ymwneud â'r Gyfadran Cynaliadwyaeth a'r Gwasanaethau Hamdden ac i gadarnhau'r Adroddiad Sgriwtini drafft ar y Gyllideb i'w anfon ymlaen i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 10 Chwefror.<br>CAMAU GWEITHREDU YN CODI<br>-Rheolwr Sgriwtini i gynnwys y safbwyntiau a fynegwyd yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn yr Adroddiad Sgriwtini drafft ar y Gyllideb i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 10ed Chwefror.<br>- Y Dirprwy Brif Weithredwr i ddarparu gwybodaeth i'r Rheolwr Sgriwtini am y gyllideb Mentrau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i'w dosbarthu I Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.<br>-Y Rheolwr Sgriwtini i gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i drefnu cyfarfod i adrodd yn ôl i'w Pwyllgor. |
| | Rhaglen Gwaith | Gohiriwyd ystyried Rhaglen Waith newydd y Pwyllgor hyd ddiwedd mis Ebrill 2014, i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. |

| | | |
|---|---|---|
| **3 February 2014** | Diweddariad y Cadeirydd | PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a gyflwynwyd |
| | Monitro Perfformiad –Cerdyn Sgorfwrdd Corfforaethol Chwarter 3 2013/2014 | Penderfynwyd nodi sefyllfa'r perfformiad ar gyfer Chwarter 3 2013/14 fel yr oedd i'w weld yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol.<br>CAM GWEITHREDU'N CODI : Y Rheolwr Cynllunio Rhaglen a Busnes i adrodd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini ynglŷn â'r meysydd oedd yn achosi pryder a chamau lliniaru posibl, i'r Pwyllgor Gwaith. |
| | Cais gan Aelod am i fater gael ei ystyried gan Sgriwtini –Cau Cyffordd B4417/A5 | CAMAU GWEITHREDU'N CODI : Y Rheolwr Sgriwtini i gydlynu'r broses o alw cyfarfodydd o'r Panel gyda gwahoddiad i'r personél perthnasol i fynychu fel bo'r angen. |
| | Amseriad Cyfarfodydd | Penderfynwyd nodi 2:00pm fel yr opsiwn a ffefrir gan Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer galw cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgrwitni Corfforaethol. |
| | Rhaglen Waith | CAMAU GWEITHREDU'N CODI : Y Rheolwr Sgriwtini yn cysylltu gyda'r Cadeirydd i drefnu dyddiad newydd ar gyfer Pwyllgor mis Ebrill. |
| | Dileu Dyledion | Penderfynwyd nodi'r sefyllfa yng nghyswllt y dyledion a argymhellwyd i'w ddileu ynghyd â'r sylwadau a wnaed arnynt. |
| **17 April 2014** | Diweddariad y Cadeirydd | I' w Cadarnhau |
| | Dogfen Cyflawni Blynyddol 2014/2015 | I' w Cadarnhau |
| | Cytundeb Canlyniadau 2013-2016 | I' w Cadarnhau |
| | Adroddiad Blynyddol Addysg Ebrill 2014 | I' w Cadarnhau |
| | Setiau Data Craidd Awdurdodau lleol | I' w Cadarnhau |
| | Uned Cynnal a Chadw'r Gwasanaethau Tai | I' w Cadarnhau |
| | Rhaglen Gwaith | I'w Cadarnhau |

## 6. Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau bod buddiannau dinasyddion Ynys Môn yn cael eu hyrwyddo a bod blaenoriaethau ac adnoddau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yn llesol yn y partneriaethau, y cydweithio, y gweithio ar y cyd â threfniadau asiantaeth allanol, fel fydd yn bodoli o bryd i'w gilydd. Bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ymestyn i drefniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a bydd yn cynnwys (ond heb fod wedi ei gyfyngu I y meysydd lle mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol mewn materion trosedd ac anhrefn.Yn ychwanegol mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ymestyn i materion yn ymwneud ag adfywio a'r cysyniad "Ynys Fenter" (neu gynlluniau a pholisïau fydd yn eu holynu).

## 7. Aelodaeth y Pwyllgor 2013-14

Mae ar y Pwyllgor 10 o Aelodau etholedig.

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/ Grwp | | Ward | Ward | Parti Gwleidyddol /Grwp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Derlwyn R Hughes (Cadeirydd) | Lligwy | Annibynol |  | Cllr Alun Mummery (Is-Gadeirydd) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. William T Hughes | Twrcelyn | Annibynol |  | Cyng. Richard Owen Jones | Twrcelyn | Annibynol |
|  | Cyng. Dafydd Rhys Thomas | Llifon | Annibynol |  | Cyng. John Griffith | Talybolion | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Carwyn Jones | Seiriol | Plaid Cymru |  | Cyng. Dylan Rees | Canolbarth Mon | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Robert Llewelyn Jones | Caergybi | Heb ymuno |  | Cyng. Raymond Jones | Caergybi | Heb ymuno |

## 8. Rhaglen Gwaith y Pwyllgor (2013/14)

Cynhaliwyd 8 cyfarfod o Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystôd 2013-2014.

| Rhaglen Gwaith Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2013/14 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad Pwyllgor** | **Eitem i'w Ystyriad** | **Allbwn/Argymhelliad** |
| **17 Mehefin 2013** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. |
| | Cytundeb Adran 33 ar Gyfer Gwasanaeth Plant Arbenigol | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.<br>Camau gweithredu Bod y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant) yn adrodd i'rPwyllgor Gwaith bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn cefnogi'r Gwasanaeth Plant Arbenigol Integredig sengl mewn egwyddor |
| | Diogelu Oedolion – Tuag at Fframwaith Strategol Gogledd Cymru | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.<br>Gweithredu : Bod y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn argymell y canlynol :-<br>- Nodi datganiadau a chynnydd hyd yn hyn ym maes diogelu oedolion yng NgogleddCymru.<br>- Cymeradwyo cyfeiriad strategol Môn a Gwynedd ar gyfer diogelu oedolion fel catalydd i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu fframweithiau rhanbarthol.<br>- Cadarnhau'r egwyddor bod angen rhoi sylw i'r fframweithiau diogelu plant ac oedolion yn gyfatal ac i beidio gwahaniaethu rhyngddynt o ran eu statws na'upwysigrwydd.<br>- Cymeradwyo y dylid adolygu'r holl drefniadau cyfredol yng Ngogledd Cymru a chefnogi'r opsiwn a ffafrir - Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru 2 haen. |

| | | |
|---|---|---|
| | Enwebu Aelod o’r Panel Rhiant Corfforaethol | Penderfynwyd penodi’r Cynghorydd Dylan Rees fel Aelod i eistedd ar y Panel Rhiant Corfforaethol o mai 2013 – Mai 2014. |
| **25 Gorffennaf 2013** | Diweddariad Uned Partneriaeth | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a’r cyflwyniad.<br>Camau Gweithredu : Gofyn i’r Rheolwr Partneriaeth fynychu cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini hwn ym mis Tachwedd ac i adrodd ar y materion a godwyd ac a nodir uchod. |
| | Datganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau Oed Gyfeillgar yn Ewrop 2013 | Gweithredu : Argymell i’r Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn :-<br>- ystyried rhinweddau bod yn rhan o rwydwaith rhagoriaeth ac arloesed Cymru ac Ewrop gyfan i greu cymunedau Oed Gyfeillgar erbyn 2020;<br>-cefnogi’r cytundeb i wneud datganiad cyhoeddus o fwriad fel oedd i'w weld yn y Datganiad Dulyn arfaethedig (gyda Chymdeithas LlywodraethLeol Cymru i gydlynu cynrychiolaeth drwy drefniadau o bell);<br>-cefnogi’r cytundeb i gymryd rhan yn y rhwydwaith thematig ar greu Cymunedau Oed Gyfeillgar wedi eu cydlynu gan y Rhaglen Heneiddio’n Dda yng Nghymru (yn cael ei lletya gan Swyddfa’r Comisiynydd Pobl Hyn);<br>-cefnogi trafodaeth bellach drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliad Iechyd y Byd (WHO) i Gymru gyfrannu at addasu canllawiau’r WHO i gymunedau drwy ddefnyddio cymunedau Cymreig fel safleoedd peilot;<br>-cefnogi derbyn cynnig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef cefnogaeth am ddim am ddiwrnod hyfforddiant / datblygu fydd yn cael einegodi gan y Cyngor sydd newydd ei benodi. |
| | Rhaglen Gwaith | Penderfynwyd nodi’r adroddiad.<br>Camau Gweithredu:<br>(1) Bod Rhaglen Waith Ddrafft y Pwyllgorau Sgriwtini Partneriaeth acAdfywio yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.<br><br>(2) Ymgorffori awgrymiadau’r Pwnodwyd uchod, i mewn i’r Rhaglen |

| | | |
|---|---|---|
| | | Waith Ddrafft. |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ac unrhyw Ddatganiadau | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch i'r Rheolydd Rhaglen Corfforaethol am ei chyflwyniad. Gweithredu: Bod adroddiad diweddaru ar waith y 3 Bwrdd Prosiect yn cael **ei** gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol. |
| **25th Medi 2013** | Datblygu Economaidd ar Ynys Môn: Trosolwg, Cyfleon a Heriau | Penderfynwyd:<br>- Nodi cynnwys yr adroddiad a chydnabod pwysigrwydd y cyfle trawsnewid economaidd dihafal oedd yn cael ei gyflwyno a rôl yr Uned Datblygu Economaidd a'r Cyngor Sir yn darparu gweledigaeth yr Ynys Fenter;<br>- Cydnabod rôl allweddol y Cyngor Sir a'r Uned Datblygu Economaidd yn sicrhau bod pobl leol, cymunedau a busnesau'n cymryd mantais lawn o'r cyfleon hyn i'r dyfodol;<br>-Cydnabod yr angen i ddiogelu adnoddau a chapasiti o fewn yr Uned Datblygu Economaidd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweledigaeth yr Ynys Fenter;<br>- Cydnabod yr angen bod angen adnoddau ariannol y Cyngor Sir fel arian cyfatebol I sicrhau adnoddau UE ac eraill i'r dyfodol i allu symud materion Ynys Fenter yn eu blaenau.<br>- I wahodd y Swyddog Datblygu Sgiliau, sy'n cael ei gyflogi ar ran y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru fel rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru I symud yr agenda sgiliau yn ei blaen. |
| | Menter Môn | Penderfynwyd diolch i Mr Gerallt Ll Jones, Rheolwrgyfarwyddwr Menter Môn am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth.<br>Camau Gweithredu :<br>- Rhoi cefnogaeth i Menter Môn ddechrau trafodaethau gyda'r Cyngor Sir a'r Uned Datblygu Economaidd i drafod cyllid posibl i brosiectau oedd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.<br>- Bod trefniadau'n cael eu gwneud i ymweld â phrosiectau a gwblhawyd yn y cymunedau lleol ac sydd wedi elwa o gyllid grant y Cynllun Datblygu Gwledig.<br>-Bod Mr Gerallt Ll Jones, Rheolwr-gyfarwyddwr Menter Môn yn cael ei apwyntio fel aelod wedi ei gyfethol o'r Pwyllgor hwn heb hawliau pleidleisio. |
| | Rhaglen Gwaith | Penderfynwyd: derbyn yr adroddiad. |

| | | |
|---|---|---|
| | Diweddariad gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ac unrhyw Ddatganiadau | Nodi |
| **21st Tachwedd 2013** | Mater a Gyfeiriwyd i'r Pwyllgor i'w Ystyried yn Sgil Galw Penderfyniad i Mewn: Datblygiad Parc Gwyddoniaeth | Penderfynwyd cymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn y cyswllt hwn. |
| **28 Tachwedd 2013** | Diweddariad ar Uned Partneriaethau | Penderfynwyd nodi'r adroddiad. |
| | Adolygiad Blynyddol o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol | Penderfynwyd nodi'r adolygiad |
| | Cymmunedau'n Gyntaf – Ynys Môn | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a gofyn i Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf gyhoeddi cofnodion eu cyfarfodydd Bwrdd ar eu gwefan ond gan adael allan unrhyw faterion cyfrinachol fel sy'n briodol.<br>Gweithredu: Derbyn Adroddiad Blynyddol ar y rhaglen Cymunedau'n gyntaf yn Ynys Môn. |
| | Dogfen Ymgynghori ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd cymru | Penderfynwyd nodi'r adroddiad.<br>Gweithredu: Cefnogi gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd am y cyfnod 2014/15 I 2016/17 sy'n cyllido lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu'r gost o wneud hynny i swm sy'n cyfateb i £1 ychwanegol bob blwyddyn fesul pen o'r boblogaeth. |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ac unrhyw Ddatganiadau | Nodi |
| | Rhaglen Gwaith | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. |
| **15 Ionawr 2014** | Bwriad i Sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig ar Gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Môn | Penderfynwyd cymeradwyo mewn egwyddor y cynnig i ddatblygu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymunedol ar Ynys Môn. |
| | Datganid o Fwriad ar Ofal Integredig i Bobl Hŷn a Chanddynt Anghenion Cymhleth | Penderfynwyd nodi a chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith. |
| | Cyllideb 2014/2015 – Cynigion Arfaethedig yr Pwyllgor Gwaith Executive's | Penderfynwyd derbyn cynigion drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllideb 2014/2015. |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ac unrhyw | Dim Cyhoeddiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | Ddatganiadau | |
| | Rhaglen Gwaith | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. |
| **4th February 2014** | Amser Cyfarfodydd | Penderfynwyd yn unfrydol bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn parhau i ddechrau am 2.00 p.m. |
| **13th March, 2014** | Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r argymhellion tu fewn. Bod yr adroddiad ar argymhellion yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Gwaith as'r Cyngor llawn yn y man. |

## 9. CYFARFODYDD BRIFFIO AR GYFER PWYLLGORAU SGRIWTINI

9.1 Y Cadeiryddion sy'n gweithredu arferion gorau yn y maes sgriwtini. Enghraifft dda o hyn yw'r nifer gynyddol o gyfarfodydd briffio a gynhaliwyd yn 2013-14 gan y Cadeiryddion ar gyfer Aelodau eu Pwyllgorau Sgriwtini unigol.

9.2 Mae briffio Pwyllgor cyfan o gymorth i feithrin ymdeimlad o dîm. Mae hefyd yn amlygu'r ffaith nad yw Aelodau'r Pwyllgorau Sgriwtini yno fel Aelodau o'u pleidiau gwleidyddol ond yn hytrach i wneud argymhellion annibynnol ac adeiladol. Tîm ydyw o Aelodau anwleidyddol sy'n dod ynghyd i gasglu tystiolaeth, trwy holi a dadansoddi er mwyn dod at ganlyniad h.y. argymhelliad ar y cyd gan y Pwyllgor Sgriwtini.

9.3 Mae cyfarfodydd briffio yn rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor baratoi ar gyfer eu cyfarfodydd ffurfiol. Mae'n rhaid i'r cyfarfodydd ffurfiol Pwyllgorau Sgriwtini , yn unol â'r gyfraith, fod yn agored i'r cyhoedd a'r wasg ac eithrio lle cytunwyd yn ffurfiol i'w cau allan ar gyfer trafod gwybodaeth swyddogol sensitif.

9.4 Mae cyfarfodydd briffio yn rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor bwyso a mesur y deunydd a gyflwynir iddynt a chyfle hefyd i'r Cadeirydd geisio cael syniad gan yr Aelodau o'r cwestiynau sydd ganddynt i'w gofyn. Canlyniad hynny yw cyfres o gwestiynau a rennir gyda'r swyddog/swyddogion perthnasol. Y nod yw peidio â gwastraffu amser gwerthfawr mewn cyfarfodydd, lle nad oes gan swyddog y wybodaeth berthnasol i fedru ateb cwestiynau Cynghorwyr.

9.5 Yn gynnar yn 2013, cyflwynwyd Cyfarfodydd Briffio gan y tîm cefnogaeth sgriwtini fel ymarfer datblygu a rhoddwyd enghreifftiau o sut y gellir gofyn cyfres o gwestiynau agored i dystion Sgriwtini. Pwrpas gwneud hyn oedd symud i ffwrdd o'r hen ffordd o weithredu lle 'roedd aelodau sgriwtini unigol yn gofyn cwestiynau nad oeddent wedi eu cynllunio ac nad oedd a wnelont ddim â'r pwnc dan sylw. Dechreuwyd gwneud hyn i ddechrau cael gwared ar yr hyn a alwyd gan y Bwrdd Adfer, Rheoleiddwyr a Chomisiynwyr yn 'ymddygiad gwael' mewn pwyllgorau Sgriwtini yn gyffredinol.

9.6 Y Cyfarfodydd Briffio yw cyfle'r Cadeirydd i gynorthwyo i ddatblygu'r Pwyllgor ac egluro'r hyn a ystyrir yn arfer dda gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a Llywodraeth Cymru (LlC). Mae pethau eraill hefyd wedi newid yn y maes Sgriwtini yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru bod y Pwyllgorau'n moderneiddio h.y. mae'r Cofnodion wedi eu hailwampio fel eu bod yn awr yn fyrrach ac yn bwrpasol, yn hytrach nag yn gofnod gair am air. Maent wedi eu hysgrifennu ar gyfer y cyhoedd ac i fod yn fwy effeithlon.

**CRYNODEB – Mae Cyfarfodydd Briffio ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini wedi eu cynllunio fel y gall y Cadeirydd sicrhau sut y bydd y cyfarfod yn rhedeg a:**

- Fel bod modd i'r Pwyllgor fod yn broffesiynol ac yn drefnus ac i ychwanegu gwerth at y broses lywodraethu.
- Fel bod modd i bob aelod leisio eu cwynion unigol a'u safbwyntiau yn breifat.
- Unwaith y mae wedi clywed gan bob aelod, bydd angen i'r Cadeirydd gydlynu a deall eu safbwyntiau er mwyn medru llunio cwestiynau a'u categoreiddio. Bydd hyn yn sail ar gyfer cyfres o gwestiynau i'r Cyfarwyddwyr/Uwch Swyddogion perthnasol i gynorthwyo gyda'r paratoadau.
- Fel bod modd i'r Cadeirydd ddechrau paratoi ar gyfer cloi'r cyfarfod ar y diwedd a geirio camau/penderfyniadau'r Pwyllgor ar gyfer y Swyddog Pwyllgor.

- Mae'n rhan o rôl y Cadeirydd Sgriwtini nid yn unig i gadw trefn yn y cyfarfod ond hefyd i wella perfformiad y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn cael ei fonitro gan y Rheoleiddwyr i ychwanegu gwerth at broses lywodraethu'r Cyngor yn ei chyfanrwydd. Mae Swyddogion Sgriwtini yno i gefnogi'r Cadeirydd ac i roi cyngor a llywio gwaith y Pwyllgor Sgriwtini.

## 10. PROSIECT GWELLA SGRIWTINI GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

10.1 Dechreuodd astudiaeth "Gwella Craffu Swyddfa Archwilio Cymru - Craffu da? Cwestiwn da!" ym mis Medi 2012 (gyda'r holl waith maes a'r gwaith adrodd wedi ei gwblhau ar gyfer SAC erbyn Mai 2013). Cafwyd ar ddeall o'r cychwyn cyntaf y byddai canlyniadau'r adolygiad yn cael eu cyflwyno mewn Cynhadledd Sgriwtini ar gyfer Cymru gyfan ar 28 Tachwedd 2013 i rannu arferion da rhwng yr holl Gynghorau yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn bwydo i mewn i'r Adroddiad Sgriwtini a Throsolwg Blynyddol hwn.

10.2 Roedd hon yn ffordd wahanol iawn o weithio yn yr ystyr **nad oedd yn archwiliad "traddodiadol",** ond yn un a oedd yn cynnwys gweithgareddau amser-real a chydweithio, hunanwerthuso a chyfleon i ddysgu gan gymheiriaid. Roedd y ffocws ar gael goleuni pellach ar faterion, ynghyd â chefnogi a datblygu gwelliannau cynaliadwy yn hytrach na dim ond rhoi sicrwydd ynghylch prosesau. Cynhaliwyd yr astudiaeth mewn chwe rhan:

| | |
|---|---|
| Cam 1(2012-2013) | Haf 2012 – Sgopio |
| Cam 2 | Medi/Hydref 2012 – Hunanwerthuso Cychwynnol |
| Cam 3 | 05/12/12 – Gweithdy Rhanbarthol Cychwynnol ar gyfer Gogledd Cymru |
| Cam 4 | Ionawr - Mawrth 2013 – Gwaith maes trwy dimau cyfnewid dysgu cymheiriaid |
| Cam 5(2013-2014) | 19/04/13 – Gweithdy Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a gwella'r hunanwerthusiad terfynol erbyn 31 Mai 2013 |
| Cam 6 | 28 Tachwedd 2013 – Adrodd a lledaenu cenedlaethol. |

10.3 Roedd dogfen hunanwerthuso SAC fel a ganlyn:
- Cwestiynau 1 i 12 – Amgylchedd Sgriwtini;
- Cwestiynau 13 i 21 - Arferion Sgriwtini
- Cwestiynau 22 i 27 – Effaith Sgriwtini

Torrwyd pob cwestiwn i lawr i'r elfennau isod:
- Casgliadau a thystiolaeth gefnogol
- Agweddau Cadarnhaol ar Sgriwtini a Meysydd ar gyfer eu Gwella.

10.4 Cwblhawyd yr astudiaeth gan SAC a chyhoeddwyd adroddiad interim mewn dwy ran:

**Hunanwerthusiad Terfynol Ynys Môn**. Yn cynnwys:
a) Gwerthusiad gwreiddiol Ynys Môn ym Medi 2012.
b) Gwerthusiad Gwynedd o'r trefniadau Sgriwtini yn Ynys Môn (Ebrill 2013) yn dilyn ymweliad gan Dîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid.

c) Gwerthusiad terfynol Ynys Môn yn ystod Ebrill 2013. Gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan Wynedd, cytunodd Tîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid Ynys Môn i ailgyflwyno dogfen wreiddiol Medi 2012 fel y gwerthusiad terfynol.
d) Dadansoddiad o sut oedd 'sgôr' derfynol Ynys Môn ar bob cwestiwn yn cymharu gyda'r 21 o gynghorau eraill. Cafwyd dogfen hir gan SAC a oedd yn cynnwys yr holl ymatebion a gyflwynwyd i gefnogi'r hunanwerthusiadau terfynol wedi ei rhannu fel a ganlyn:
    - Casgliadau a thystiolaeth gefnogol,
    - Agweddau Cadarnhaol ar Sgriwtini
    - Meysydd ar gyfer eu Gwella.

10.5 Roedd yr adroddiad terfynol yn gyfle unigryw i gael trosolwg ar sut 'roedd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu swyddogaethau Trosolwg a Sgriwtini.

10.6 O safbwynt Ynys Môn, mae cymryd rhan yn yr astudiaeth hon wedi bod yn gyfle cadarnhaol i gymharu sut ydym yn cyflawni ac yn hyrwyddo ein swyddogaethau Sgriwtini a Throsolwg yn fewnol (h.y. o ran rôl sgriwtini yn y broses ddemocrataidd, hygyrchedd a gwybodaeth sydd gan Aelodau a Swyddogion am y broses, a sut mae dinasyddion Ynys Môn a chydranddeiliaid eraill yn cyfranogi'n weithredol yn y broses). Mae hwn wedi bod yn gyfle i ni ddysgu gan eraill sydd wedi sgorio'n uwch nag Ynys Môn.

10.7 Roedd yr astudiaeth yn crisialu brwdfrydedd (Aelodau a Swyddogion fel ei gilydd) i fanteisio ar y cyfleon rhwydweithio sydd wedi codi yn ystod yr astudiaeth e.e. Timau cyfnewid dysgu yn ogystal â'r ddau Weithdy Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.

10.8 **CASGLIAD:**

- Er mai dim ond un aelod o'r Tîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid a ailetholwyd yn etholiad y Cyngor ym Mai 2013, fe etholwyd yr aelod hwnnw'n Arweinydd y weinyddiaeth newydd. O'r herwydd mae gennym noddwr Sgriwtini sy'n deall y broses Sgriwtini a sut y gallwn ychwanegu gwerth trwy gynorthwyo a herio'r Pwyllgor Gwaith er mwyn bod o gymorth gyda llywodraethu corfforaethol da.

- Nid yw'r adroddiad terfynol gan SAC wedi ei gyhoeddi hyd yma (ar adeg argraffu'r adroddiad blynyddol hwn). Yn y cyfamser mae'r Rheolydd Sgriwtini wedi ystyried adroddiad interim SAC sy'n cynnwys y dystiolaeth ar gyfer yr hunanwerthusiad. Roedd rhai o'r meysydd gweithgaredd eisoes wedi cael sylw a'u cynnwys yng Nghynllun Sgriwtini 2013/14. Yn ogystal, rydym wedi cynllunio ar gyfer y meysydd y rhagwelir y byddant angen sylw yn ein Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2014/15, er mwyn gwella ein trefniadau Trosolwg a Sgriwtini ymhellach. Bydd manylion y gweithgareddau yn cael eu hamlinellu mewn Cynllun gweithredu unwaith y bydd yr adroddiad wedi ei gyhoeddi gan SAC.

## 11. RHWYDWEITHIAU SGRIWTINI

11.1 Mae Tîm Sgriwtini Ynys Môn yn rhan o:
- Rhwydwaith Swyddogion Sgriwtini Gogledd Cymru.
- Rhwydwaith Cenedlaethol Swyddogion Sgriwtini Cymru.
- Rhwydwaith Cenedlaethol Cadeiryddion Sgriwtini
- Canolfan Cefnogi Craffu Cymru.

11.2 Yn 2013 gweithiodd Rheolydd Sgriwtini Ynys Môn gyda'i swyddog cyfatebol yn Wrecsam i lunio cyflwyniad Gogledd Cymru mewn perthynas â 'Chanlyniadau a Nodweddion ar gyfer craffu effeithiol mewn llywodraeth leol'. Ysgogwyd hynny gan y nodweddion yr oedd angen i Sgriwtini roi sylw iddynt yn Astudiaeth Sgriwtini Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru. Ar ôl i'n cydweithwyr yn Rhwydwaith Swyddogion Sgriwtini Gogledd Cymru gytuno iddynt, fe'u hanfonwyd ymlaen at Rwydwaith Swyddogion Sgriwtini Cymru. Fe'u cytunwyd wedyn gan y Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus a gysylltodd gyda Chymdeithasl Llywodraeth Leol Cymru a'r canlyniad oedd:

- **Cyfres genedlaethol o Nodweddion ar gyfer Sgriwtini Effeithiol a hyrwyddir gan y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a'r Archwilydd Cyffredinol**
- **Dogfen o'r enw "Goleuni ar Argraffu: Gwneud y mwyaf o'ch buddsoddiad"**

## 12. YMGYSYLLTIAD SGRIWTINI

12.1 Mae sylwadau a syniadau sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn pwnc dan sylw yn werthfawr i sicrhau sgriwtini effeithiol.

12.2 Mae arferion gorau o ran Sgriwtini fel arfer yn golygu bod rhaid i Aelodau weithio gyda phobl a sefydliadau lleol er mwyn darparu gwasanaethau sy'n effeithiol ac yn ymatebol.

12.3 Bydd Pwyllgorau Sgriwtini yn cyfarfod yn gyhoeddus ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae angen trafod materion cyfrinachol a bydd dyddiadau lleoliad y cyfarfodydd a'r blaenraglenni gwaith ar gael ar wefan y Cyngor yn http://www.ynysmon.gov.uk

12.4 Yn ogystal, gellir gwahodd partneriaid ac asiantaethau allanol i fynychu Pwyllgorau Sgriwtini fel y gall y Pwyllgor mofyn eu sylwadau a'u barn ar faterion sy'n cael effaith ar y modd y darperir yr amcanion corfforaethol.

12.5 I ddysgu mwy am Sgriwtini yn Ynys Môn neu i roi eich sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r Tîm Sgriwtini yn:


Tîm Sgriwtini
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW

Sgriwtini@ynysmon.gov.uk


| | | |
|---|---|---|
| Bev Symonds | Rheolydd Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Prif Swyddog Cefnogi Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | (01248) 752078<br><br>bsxce@ynysmon .gov.uk |
| Geraint Wyn Roberts | Swyddog Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Prif Swyddog Cefnogi Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth asc Adfywio | (01248) 752039<br><br>gwrce@ynysmon.gov.uk |

**Y DIWEDD.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **8 MAI 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd - Adroddiad Blynyddol 2013/14** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2013/14** |

1) **Rhagarweiniad**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i benodi un o'i Swyddogion fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth sydd gan yr Awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd. Yn unol â'r mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn ac adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor.

Hwn yw'r ail adroddiad blynyddol a baratowyd gan y Pwyllgor ers iddo gael ei sefydlu yn 2012.

2) **Rhaglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2013/14 a hefyd yn gwneud sylwadau ar ei statws cyfredol.

Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar y meysydd isod:

- Rhaglen Datblygu Aelodau
- Gwneud cais am dderbyn Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr
- Gweddarlledu cyfarfodydd, mynychu o bell a gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned
- Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

| Dyddiad y Pwyllgor | Pwnc | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| 24/04/2013 | Adroddiad Blynyddol drafft | Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2012/13 i'r Cyngor Sir ar 23 Mai ac fe'i cymeradwywyd gan yr Aelodau. |
| 02/07/13 | Cynllun Datblygu Aelodau 2013/14 | Cymeradwywyd y Cynllun Datblygu Aelodau gan y Cyngor Sir ar 23 Mai 2013. Roedd Rhan 1 y rhaglen yn canolbwyntio ar agweddau cydymffurfiaeth ac roedd Rhan 2 yn rhoi sylw i elfennau gwasanaeth mwy penodol. Yn y Pwyllgor enwebwyd y Cadeirydd yn Eiriolydd ar gyfer Datblygu Aelodau. Cyfeiriwyd hefyd at yr adolygiadau datblygiad personol a gwaith pellach a oedd wedi ei raglennu ar gyfer Hydref 2013 gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |
| | Siarter Cymru ar Gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau | Rhoddwyd sylw i adroddiad a oedd yn manylu ar gynnydd a wnaed hyd yma wedi i'r Cyngor gwblhau templed hunanasesu a'i gyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn gynharach yn 2013 fel rhan o'r cais i ennill statws Siarter. Roedd yr adroddiad yn dweud bod cais wedi ei wneud am ragor o dystiolaeth yn dilyn sylwadau gan CLlLC a manylwyd ar hynny yn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad yn nodi mai'r nod oedd derbyn y Marc Siarter yn ystod 2013/14. |
| | Gweddarlledu Cyfarfodydd a Mynychu o Bell | Rhoddwyd sylw i adroddiad a oedd yn ymhelaethu ar y dyraniad ariannol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i weddarlledu cyfarfodydd a chyda mynediad o bell. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y ddarpariaeth o grantiau ar gyfer pob Cyngor Cymuned i'w cynorthwyo i sefydlu eu gwefannau eu hunain. |
| | Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau | Adroddiad dilyn i fyny oedd hwn yn dilyn gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 4 Chwefror 2013. Roedd yr adroddiad yn ymhelaethu ar yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | amserlen arfaethedig i'r Aelodau gwblhau eu hadroddiadau blynyddol yn ystod 2013/14. Rhoddwyd cyfarwyddiadau wedi hynny i'r Aelodau o ran sut i gwblhau'r templed. Cynigwyd sesiynau briffio iddynt hefyd i'w cynorthwyo gyda'r dasg hon. |
| 01/10/13 | Gweddarlledu Cyfarfodydd a Mynychu o Bell<br><br>Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau<br><br>Adolygiadau Datblygiad Personol ar gyfer Aelodau<br><br>Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau | Ystyriwyd adroddiad gwaith gan y Pwyllgor yn dilyn adroddiad cychwynnol ar 2 Mehefin 2013. Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cyngor y dylai fwrw ymlaen i weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod prawf o ddwy flynedd ac y byddai cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu gweddarlledu. Rhoddwyd sylw i'r mater wedyn gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 10/10/13 ac fe gymeradwywyd yr argymhellion.<br><br>O ran mynychu o bell, adroddwyd bod y Cyngor yn disgwyl cael y canllawiau terfynol cyn y gallai ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor.<br><br>Diweddarwyd y Pwyllgor ynghylch y rhaglenni hyfforddi a drefnwyd ar gyfer Aelodau Etholedig, Aelodau Lleyg a Chynghorau Cymuned ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad ar y trefniadau ar gyfer cynnal adolygiadau datblygiad personol i Aelodau er mwyn rhoi sylw i anghenion hyfforddi a datblygu'r Aelodau i'r dyfodol.<br><br>Ystyriwyd adroddiad gwaith pellach gan y Pwyllgor fel rhan o gais y Cyngor i ennill statws Siarter. |
| 30/01/14 | Ymgynghoriad ar gynigion Cyllideb 2013/14 | Ystyriodd y Pwyllgor yr arbedion arfaethedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau Democrataidd a sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2014 a oedd wedi scriwtineiddio'r arbedion. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ystyriwyd sylwadau'r Pwyllgor wedyn gan y Pwyllgor Gwaith ar 10 Chwefror 2014 fel rhan o'i drafodaethau ar y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb. |
| | Gweddarlledu Cyfarfodydd a Mynychu o Bell | Ystyriwyd adroddiad gwaith ac amserlen arfaethedig ar gyfer dechrau gweddarlledu cyfarfodydd. Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ynghylch yr hyn a oedd wedi digwydd ers 1 Hydref 2013. Yn ogystal, cyfeiriwyd at y sefyllfa mewn perthynas â mynychu o bell. |
| | Datblygu Gwefannau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned | Ystyriwyd adroddiad gwaith a chyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa gyfredol ynghylch y defnydd a wnaed gan pob Cyngor Tref a Chymuned o'r grant a gynigwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn nodi hefyd y disgwylir canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch trefniadau cario arian drosodd i 2014/15. |
| | Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau | Adroddwyd ar y cynnydd gyda'r Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau a nodwyd bod 34 o sesiynau hyfforddi ffurfiol wedi eu trefnu rhwng Mai a Rhagfyr 2013. |
| 26/03/14 | Siarter Datblygu Aelodau | Roedd y Cyngor wedi cwrdd â'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer ennill Statws Siarter a chydnabuwyd hynny yn y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2014. Roedd yr adroddiad yn nodi bod y statws wedi ei ddyfarnu i'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd ac y byddai'n cael ei ailasesu yn y dyfodol ar sail cyflwyniad ysgrifenedig, Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd bod sgôp i'r Cyngor weithio tuag at ennill Siarter Uwch - sef dyfarniad newydd a ddatblygwyd gan CLlLC - Y Dyfarniad Arferion Da ac Arloesedd ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gweddarlledu Cyfarfodydd a Mynychu o Bell | Roedd yr adroddiad yma'n canolbwyntio ar yr angen i ail-raglennu cynigion gweithredu yn sgil gorfod adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Chwefror ynghylch y broses gaffael a ddilynwyd. Byddai'r offer yn cael ei osod a byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod chwarter cyntaf 2014/15. Y bwriad oedd gweddarlledu'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin fel y cyfarfod cyntaf a fyddai'n cael ei weddarlledu. Roedd yr adroddiad hefyd yn delio gyda mynychu o bell ac yn cyfeirio at y ffaith y byddai adroddiad ar wahân yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2014 i gynnwys darpariaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor. | |
| | | Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned | Rhoddwyd sylw i adroddiad gwaith a oedd yn nodi y byddai modd dwyn y grant ymlaen i flwyddyn ariannol 2014/15. Nodwyd y sefyllfa ddiweddaraf hefyd mewn perthynas â'r Cynghorau oedd wedi gwneud defnydd o'r grant:<br><br>Roedd 25 o Gynghorau wedi hawlio grant.<br><br>Nid oedd 4 Cyngor wedi penderfynu hyd yma a fyddent yn derbyn y grant.<br><br>Roedd 11 o Gynghorau wedi dweud nad oeddynt yn dymuno hawlio'r grant.<br><br>Mae'r Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd wedi ysgrifennu at y Cynghorau Tref a Chymuned i roi gwybod am yr hyblygrwydd o ran defnyddio'r grant ac i sôn am y trefniadau a wnaed i ddwyn y grant ymlaen i flwyddyn ariannol 2014/15. Gofynnwyd hefyd am gymorth Un Llais Cymru i annog mwy o Gynghorau i fanteisio ar y grant. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau | Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 4 Chwefror 2013 ac ar 2 Gorffennaf 2013 ynglŷn â dyletswydd y Cyngor i sicrhau bod trefniadau wedi eu gwneud i Aelodau ddarparu adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau yn y Cyngor. Gofynnwyd i'r Aelodau baratoi adroddiadau drafft erbyn 9 Ebrill 2014 i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn Mehefin 2014 ar yr hwyraf. |
| | Rhaglen Datblygu Aelodau ac Adolygiadau Datblygiad Personol | Rhoddwyd sylw i adroddiad a oedd yn nodi cynnydd ar y ddau fater hyn a'r angen i baratoi a diweddaru'r Rhaglen Datblygu Aelodau ar gyfer 2014 i'w hystyried gan y Cyngor ar 8 Mai 2014.<br><br>Roedd y mwyafrif o'r Aelodau Etholedig wedi cwblhau eu cyfarfodydd Adolygiad Datblygiad Personol ac wedi adnabod a rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog Datblygu AD am eu hanghenion hyfforddiant unigol. Yn gyffredinol, roedd yr anghenion a amlygwyd yn ymwneud â hyfforddiant TGCh ychwanegol/mentora a thrafodaethau gyda swyddogion sy'n delio gyda materion Cyllid a Chynllunio. Lle roedd nifer wedi nodi anghenion hyfforddi tebyg, bwriedir eu hymgorffori i mewn i'r prif Gynllun Datblygu ar gyfer 2014/15 |
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2014/15 | Rhoddodd y Pwyllgor sylw i sgôp ei raglen waith am 2014/15 a phenderfynodd y byddai'n canolbwyntio ar y meysydd isod:<br><br>• Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;<br>• Gweddarlledu cyfarfodydd a mynychu o bell; |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;<br>• Adroddiad Blynyddol gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;<br>• Moderneiddio arferion gweithio;<br>• Y gyllideb ar gyfer 2015/16 a'r effaith ar y Gwasanaethau Democrataidd.<br><br>Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi fod y Pennaeth Dros Dro ar Gyfer Gwasanaethau Democrataidd yn bwriadu trefnu Grŵp Ffocws i'r holl Aelodau yn ystod Chwarter cyntaf 2014/15 er mwyn cael sylwadau ganddynt ar arferion gweithio er mwyn siapio rhaglen waith y Pwyllgor i'r dyfodol. | |

| **3) Argymhelliad** |
|---|
| Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2013/14. |

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**15/04/14**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **08 MAI 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN DATBLYGU AELODAU – EBRILL 2014 – MAWRTH 2015** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **GOFYN I'R CYNGOR GYMERADWYO'R CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MIRIAM WILLIAMS, UWCH SWYDDOG DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i ddarparu cyfleon hyfforddi a datblygu ar gyfer ei Aelodau a threfnu bod gwybodaeth yn cael ei adrodd i'r Cyngor yn flynyddol.

Yn ystod 2012/13 sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â Mesur Llywodraeth Leol(Cymru) 2011. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â hyfforddi a datblygu Aelodau.

Llynedd darparwyd rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a gafodd ei llywio gan anghenion yr Aelodau a'r sefydliad ac a gefnogwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwnaethpwyd ymrwymiad i weithio tuag at ennill Statws Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Datblygu Aelodau. Mae'r Strategaeth presenol ynallweddol i ennill Statws y Siarter sy'n rhoi ffocws ar Ddatblygiad a Chefnogaeht parhaol i Aelodau.

Yn ei hanfod, mae'r Strategaeth yn ymwneud â deall anghenion Aelodau fel bod modd eu cefnogi'n well trwy ddarparu cyfleon datblygu priodol sy'n cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac o'r safon iawn.

Ers yr etholiad mae pob Aelod o'r Cyngor wedi cael disgrifiad swydd a manyleb person generig sy'n cynnwys cyfeiriad at gyfleon a gynigir gan yr Awdurdod ar gyfer datblygiad personol yr Aelodau a datblygu eu rôl.

Mae symud ymlaen gyda'r rhaglen ddatblygu a chynefino ar gyfer Aelodau yn hollbwysig. Mae'r Cynllun Hyfforddi sydd ynghlwm am y cyfnod Ebrill 2014 i Fawrth 2015 wedi ei baratoi i ddwyn sylw at y prif feysydd datblygu a gynigir yn ystod y cyfnod.

Bydd y rhaglen, cyn belled â phosib yn ceisio cwrdd â gofynion Aelodau h.y. cyfuniad o sesiynau dydd a nos a hefyd amrywiaeth o ran hyfforddiant h.y. gweithdai, mentora, e-ddysgu ac un i un a.y.y.b.

Bydd y ddogfen yn "rhaglen dreigl" o sesiynau yn seiliedig ar anghenion unigol yr Aelodau, ynghyd ag anghenion y Cyngor/cydranddeiliaid eraill, ond gan adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael. Fe fydd yr adolygiadau datblygiad personol a wneir gan Aelodau yn ystod y flwyddyn yn rhan bwysig o'r broses hon.

Bwriedir y bydd y cynllun yn gwneud cynnydd cadarnhaol pellach tuag at gefnogi Aelodau yn eu swyddogaethau, gwella safonau, datblygu arferion da a chefnogi'r gwaith wnaethpwyd ar gyfer ennill y Siarter Datblygu Aelodau diwedd llynedd.

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cadw llygad ar gynnydd yn rheolaidd ac yn adolygu/diweddaru'r cynllun yn seiliedig ar anghenion yr Aelodau a'r sefydliad. Bydd y Pwyllgor Safonau hefyd yn cael adroddiadau fel sy'n briodol.

**ARGYMHELLIAD:**

Mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer Aelodau fel sydd wedi ei nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.**
**30.04.2014**

# CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG/

# DEVELOPMENT PLAN FOR ELECTED MEMBERS

# EBRILL /APRIL 2014 – MAWRTH/MARCH 2015



**Mae'r Cynllun yma yn seiliedig ar wybodaeth wedi ei gasglu gan Swyddogion/Cynlluniau Datblygu Personol, Aelodau Etholedig/Anghenion Siarter Aelodau.**

**Bwriedir i'r cynllun gael ei ddiwygio'n briodol fel mae blaenoriaethau/deddfwriaeth yn newid/ ac bydd yn ddibynol ar argaeledd cyllidebau i'w gefnogi.**

**This Plan is based on information collated from Officers/Elected Member Personal Development Plans/Member Charter requirements**

**The intention is that the plan is amended appropriately as priorities/legislation changes. The plan is also dependent on availability of budgets to support.**

| PWNC<br><br>SUBJECT | CYNULLEIDFA<br><br>AUDIENCE | DYDDIAD<br><br>DATE |
|---|---|---|
| **Ymwybyddiaeth Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus/<br>Child Protection and Vulnerable Adults Awareness sessions** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Ebrill a Mai/<br>April and May<br>2014 |
| **Sesiynau Gweddarlledu/<br>Webcasting Sessions** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Ebrill a Mai/<br>April and May<br>2014 |
| **Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol/<br>Social Media Training** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Delio gyda'r Cyfryngau/<br>Dealing with the Media** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Adolygiad Cynlluniau Datblygu Personol/<br>Personal Development Reviews Review** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Medi/September 2014 |
| **Cyfansoddiad/<br>Constitution** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Diwygiad Lles/<br>Welfare Reform** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |

| | | |
|---|---|---|
| **Series of Finance/Audit sessions to include:**<br>• **Statement of Accounts**<br>• **Counter Fraud Arrangements**<br>• **Treasury Management**<br>• **Risk Management** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Mehefin/June 2014<br>Medi/September 2014<br>Hydref/October 2014<br>Rhagfyr/December 2014 |
| **Sesiwn Caffael/<br>Procurement Session** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Diweddaru Trwyddedu/<br>Licencing Updates** | Pwyllgor Trwyddedu/<br>Licencing Committee Members | Fel bô'r angen/<br>As and when required |
| **Cyfres o Hyfforddiant & Diweddariad Materion Cynllunio i gynnwys:/<br>Series of Planning Training & Updates to include:**<br>• **Sesiwn Comisiwn Dylunio Cymru/ Design Commission for Wales Session**<br>• **Diweddariad ar faterion Cynllunio/ update on Planning matters** | Pwyllgor Cynllunio/<br>Planning Committee | Fel bô'r angen/<br>As and when required |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth/gwybodaeth yn ymwneud â Ynys Ynni/Datblygiadau Mawr/**<br><br>**Series of awareness/information sessions regarding Energy Island/Major Developments** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Cyfres o sesiynau ar faterion Tai a Cymuned i gynnwys:/**<br>**Series of sessions relating to Housing and Community to include:**<br><br>• **Digartrefedd/Homelessness**<br>• **Tai Fforddiadwy/Affordable Housing**<br>• **Polisi Gosod/Letting Policy**<br>• **Deddf Tai/Housing Law**<br>• **Materion Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc/Caring and Young Carer Matters**<br>• **Eiriolaeth a Chyfranogiad Plant/Advocacy and Children's Participation**<br>• **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)/**<br>**Social Services Bill (Wales)**<br>• **Diogelu a Rhiant Corfforaethol/ Safeguarding and Corporate Parenting**<br>• **Materion Oedolion/Matters relating to Adults** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfres o sesiynau yn ymwneud ag Addysg, megis:/<br>Series of sessions involving Education matters such as:**<br>• **Rôl Aelod Etholedig fel Llywodraethwr Ysgol/Role of Elected Members as School Governors**<br>• **Trosolwg o'r blaenoriaethau sydd yn wynebu ysgolion/Overview of the priorities facing schools** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Cyfres o sesiynau gyda'r Uwch Dim Rheoli gydag Academi Cymru/Series of sessions with the Senior Management Team Academi Wales** | Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol/<br>Executive and Shadow Executive | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Gwella Sgiliau Sgriwtini/<br>Enhanced Scrutiny Skills** | Aelodau o'r Pwyllgorau Sgriwtini/<br>Scrutiny Committee Members | Rhaglen i'w chadarnhau/<br>Programme to be agreed |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu Data/Materion Cyfrinachedd/<br>Awareness of Data Protection/<br>Confidentiality issues** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |

| | | |
|---|---|---|
| **Cwrs Sgiliau Arweinyddiaeth CLILIC/ WLGA Leadership Skills Course** | Aelodau Penodol/Specific Members | Hydref – Rhagfyr/ October – December 2014 |
| **Sgiliau Cadeirio/ Chairing Skills** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |
| **Sgiliau TG/ IT Skills** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |
| **Sgiliau Iaith/Language Skills** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |
| **Mentora/Mentoring** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |
| **Ddysgu/ E Learning** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |

- Trefnir sesiynau ar gyfer Cynghorau Bro a Thref lle bô'r angen/
  Sessions for Town and Community Councils will be arranged as/when identified
- Bydd Aelodau o'r Pwyllgor Safonau ac Aelodau Lleyg yn cael gwahoddiad i rai sesiynau lle'n briodol /
  Where appropriate, Members of the Standards Committee and Lay Members will be invited to sessions

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Presenoldeb mewn Cyfarfodydd**

| Paragraff(au) 12 a 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 12 and 13 in Schedule 12A of the Local Government Act 1972 | |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| O BLAID DATGELU / FOR DISCLOSURE<br><br>Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>• Mae gan y cyhoedd, yn arbennig y rheini yn y ward dan sylw, ddiddordeb dilys mewn materion sy'n ymwneud â gallu eu cynrychiolwyr etholedig i ymgymryd â'u swyddogaethau / The public, particularly those in the ward concerned, have a legitimate interest in matters relating to their elected representatives' capacity to undertake their role.<br><br>• Disgwyliad o dryloywder mewn perthynas ag agweddau sy'n ymwneud â materion cyhoeddus / Expectation of transparency regarding matters relating to public affairs. | YN ERBYN DATGELU / AGAINST DISCLOSURE<br><br>Y budd i'r cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>• Mae'r Adroddiad yn cynnwys data personol sensitif fel y diffinnir yn Neddf Diogelu Data 1998 / The Report concerns sensitive personal data within the definition of the Data Protection Act 1998.<br><br>• Byddai datgelu i Aelodau'r Cyngor, y mae ganddynt ddisgresiwn statudol i wneud y penderfyniad angenrheidiol, yn cyfateb i brosesu teg a chyfreithlon dan y Ddeddf ac mae gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd diamwys ar gyfer datgeliad o'r fath / Disclosure to Council Members, who have the statutory discretion to make the decision required, would constitute fair and lawful processing under the Act and such disclosure has the explicit authority of the data subject.<br><br>• Nid oes unrhyw ganiatâd diamwys i gyhoeddi'r wybodaeth yn ehangach. Cynghorir yr Aelodau felly y byddai datgelu'r wybodaeth yn ehangach i'r cyhoedd, yn absenoldeb caniatâd diamwys gan wrthrych y data, yn achos efallai o dorri'r Ddeddf ac y gellid cymryd camau yn ei gylch, ac eithrio os yw Aelodau yn gallu nodi rheswm neu resymau diymwad yn dangos pam y byddai datgelu'r wybodaeth yn gyhoeddus yn gorbwyso'r anfantais i'r unigolyn / There is no explicit authority for wider publication and Members are therefore advised that wider public disclosure, in the absence of explicit agreement of the data subject, may be an actionable breach of the Act, unless Members are able to identify an overwhelming reason or reasons why the benefit of disclosure to the public would outweigh the detriment to the individual. |
| **Argymhelliad** -<br>Nid oes budd diymwad i'r cyhoedd o gyhoeddi'r wybodaeth o gymharu â hawliau a buddiannau'r unigolyn yn yr achos hwn. Argymhellir bod Aelodau yn cadarnhau statws eithriedig yr adroddiad sydd ynghlwm a'r drafodaeth arno.<br>**Recommendation** - There is no overwhelming public interest in publication when compared to the rights and interests of the individual in this case. Members are recommended to confirm the exempt status of the attached Report and discussion thereon. | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

# Eitem 18. ar y Rhaglen

Document is Restricted

This page is intentionally left blank